CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# Polisi Anghenion Gofal Iechyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

**Medi 2022**

## 1. Cyflwyniad

Mae Awdurdodau Lleol, lleoliadau addysg a chyrff llywodraethu yng Nghymru yn gyfrifol am iechyd a diogelwch plant a phobl ifainc sydd o dan eu gofal.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf (RhCT) wedi ymrwymo i ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion unigol pob plentyn a pherson ifanc yn yr Awdurdod Lleol. Mae RhCT yn cefnogi cynhwysiant lle bynnag y bo modd. Mae'n anochel felly y bydd plentyn neu berson ifanc ag angen gofal iechyd sylweddol ar gofrestr pob lleoliad ar ryw adeg. Mae disgwyl y bydd modd i'r plant a'r bobl ifainc yma fynychu eu lleoliad prif ffrwd yn ddiogel.

Mae'n bosibl y bydd plentyn neu berson ifanc â chyflwr meddygol yn cael ei ystyried yn anabl o dan y diffiniad sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf Cydraddoldeb a/neu mae'n bosibl y bydd gyda nhw ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Yn y polisi yma, mae'r term 'lleoliad addysg' yn cyfeirio at ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac unedau atgyfeirio disgyblion. Mae Awdurdod Lleol RhCT wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod anghenion gofal iechyd y plant a'r bobl ifainc sydd o dan ei ofal yn cael eu diwallu. Mewn perthynas ag unedau atgyfeirio disgyblion, mae 'corff llywodraethu' yn cyfeirio at y pwyllgor rheoli ac mae 'pennaeth' yn cyfeirio at yr athro/athrawes sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros yr ysgol. Mae'r term 'rhiant/rhieni' hefyd yn cyfeirio at 'gynhaliwr/cynhalwyr' (gofalwr/gofalwyr).

## 2. Egwyddorion Allweddol

Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau:

- Bod disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cefnogi'n briodol fel bod mynediad llawn gyda nhw at addysg, gan gynnwys teithiau ac addysg gorfforol
- Bod gyda chyrff llywodraethu gynlluniau, trefniadau a gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd
- Bod cyrff llywodraethu yn ystyried dyletswyddau diogelu ehangach yn unol â gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru, wrth geisio sicrhau bod modd i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd gael mynediad at yr un cyfleoedd â'u cyfoedion
- Bod gyda phob lleoliad addysg bolisi ysgrifenedig (a ddylai fod ar gael ar-lein) ar gyfer addysg dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Bydd y polisi yma'n cael ei adolygu'n flynyddol a dylid ei ddefnyddio er mwyn llywio gwelliannau.
- Bod cyrff llywodraethu a lleoliadau addysg yn ymgynghori'n effeithiol â gweithwyr proffesiynol perthnasol, dysgwyr a rhieni i sicrhau eu bod yn deall anghenion gofal iechyd dysgwyr a bod y rhain yn cael eu cefnogi.
- Bod polisïau a gweithdrefnau anghenion gofal iechyd yn nodi trefniadau cydweithio amlasiantaethol a sut y bydd gweithio'n rhan o bartneriaeth yn diwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr yn effeithiol
- Bod barn dysgwyr yn cael ei hystyried wrth wneud unrhyw drefniadau i gefnogi dysgwyr unigol
- Bod y cwricwlwm yn cael ei ddarparu mewn ffordd hyblyg ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, e.e. trefniadau astudio rhan-amser priodol
- Bod darpariaeth amgen yr Awdurdod Lleol yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd

## 3. Gofynion Cyfreithiol ar yr Awdurdod Lleol

O dan y gyfraith, mae'r Awdurdod Lleol a chyrff llywodraethu pob lleoliad addysg yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ystyried canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, a bod modd eu dwyn i gyfrif am hyn: 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd, Mawrth 2017', canllawiau 215/2017 wrth gyflawni eu dyletswyddau wrth hyrwyddo lles plant sy'n ddysgwyr mewn lleoliad addysg, sy'n cynnwys diwallu eu hanghenion gofal iechyd. Mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i weithgareddau sy'n digwydd oddi ar y safle yn rhan o weithgareddau addysgol arferol.

Mae adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd ar RCT yn Awdurdod Lleol a chyrff llywodraethu lleoliadau addysg i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu harfer mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles dysgwyr mewn lleoliad addysg a gweithgareddau oddi ar y safle sy'n cael eu cynnal yn rhan o weithgareddau addysgol arferol yn yr ysgol neu fan dysgu arall. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant ag anghenion gofal iechyd.

Wrth gyflawni'r dyletswyddau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, **rhaid** i Awdurdod Lleol RhCT a'r holl gyrff llywodraethu fod yn effro i ganllawiau wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru yn yr adran yma. Mae hyn yn cynnwys Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd, Mawrth 2017', canllawiau 215/2017.

Mae Adran 21(5) o Ddeddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu i hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol mewn perthynas â materion sy'n cael eu crybwyll yn adran 25(2) o Ddeddf Plant 2004, sy’n cynnwys iechyd corfforol a lles emosiynol, addysg, hyfforddiant a hamdden, a lles cymdeithasol.

Mae'r cyngor anstatudol sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Anghenion Gofal Iechyd RhCT wedi'i gyhoeddi er mwyn arfer dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo addysg pobl Cymru a'u grym mewn perthynas â hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

*Atodiad 1:* Mae 'amlinelliad o’r fframwaith cyfreithiol' yn cynnwys rhagor o wybodaeth am fframwaith cyfreithiol y ddogfen ac egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (UNCRC).

Mae pob disgybl sydd ag anghenion gofal iechyd â'r hawl i gael addysg lawn. Yn ogystal â’r dyletswyddau sydd wedi'u nodi uchod (Deddf Addysg 2002), rhaid hefyd ystyried p'un a yw'r disgybl wedi'i ddiffinio’n anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid i gyrff llywodraethu gydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf yma, gan gynnwys y rheiny mewn perthynas ag addysg. Er enghraifft, rhaid gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr anabl, a ddylai dysgwyr anabl ddim cael eu gwahaniaethu wrth wneud trefniadau derbyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod UNCRC yn sail i'w chanllaw ac yn gyson â darpariaeth UNCRC. Mae Awdurdod Lleol RhCT wedi ymrwymo i sicrhau hawliau'r plentyn, gan gynnwys yr hawl i gefnogi ei anghenion iechyd.

### 3.1 Rolau a Chyfrifoldebau

### Yr Awdurdod Lleol

Bydd y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn sicrhau bod lleoliadau

addysg yn darparu addysg briodol i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, a bod:

- addasiadau rhesymol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifainc anabl ddim dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion. Dylid cynllunio'n rhagweithiol ymlaen llaw ar gyfer y ddyletswydd yma. Er enghraifft, ddylai dysgwyr ddim bod dan anfantais wrth adael yr ysgol gynradd a dechrau'r ysgol uwchradd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid i addasiadau gael eu cynllunio a'u rhoi ar waith ymlaen llaw er mwyn osgoi unrhyw anfantais. Ddylai trafodaethau ynghylch y cyfrifoldeb am ddarpariaeth ddim effeithio ar ddarparu gwasanaeth, oherwydd gallai oedi fod yn niweidiol i addysg a lles y dysgwr

- trefniadau ar waith i hyrwyddo gweithio ar y cyd rhwng cyrff ac unigolion amrywiol, gyda golwg ar wella – ymhlith pethau eraill – lles plant mewn perthynas â'u hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, eu haddysg, eu hyfforddiant a'u hamser hamdden. Wrth wneud y trefniadau yma, dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod cytundebau priodol ar waith ar gyfer rhannu data

- gwasanaethau cwnsela'n cael eu darparu (o fewn rheswm) ar gyfer pobl ifainc 11–18 oed a dysgwyr ym Mlwyddyn 6 yr ysgol gynradd. Mewn ysgolion, dylai'r ddarpariaeth yma ategu'r gwahanol ddulliau sydd eisoes ar waith i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr

- yn gweithio gyda lleoliadau addysg i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn derbyn addysg briodol. Os yw disgybl o oed ysgol gorfodol ddim yn cael addysg briodol am gyfnod oherwydd ei iechyd, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i wneud trefniadau i ddarparu addysg briodol.  Os yw dysgwr yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol yna ond o dan 18 oed, gall yr Awdurdod Lleol wneud trefniadau o'r fath

- yn darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys sut i ddiwallu anghenion hyfforddi staff lleoliad addysg, fel bod modd i gyrff llywodraethu sicrhau bod y gefnogaeth sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn cael ei darparu'n effeithiol

**Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod cyrff llywodraethu yn goruchwylio datblygu a gweithredu trefniadau, a ddylai gynnwys:

- cydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys y rheiny o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (e.e. y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd os ydyn nhw'n anabl, fel sydd wedi'i amlinellu uchod)
- bod â dyletswydd statudol i hyrwyddo lles disgyblion. Dylai ysgolion ystyried sut y mae modd iddyn nhw ddiwallu'r anghenion yma, gan gynnwys darparu mynediad i ddysgwyr at wybodaeth a deunydd sy’n anelu at hyrwyddo lles ysbrydol a moesol, iechyd corfforol ac iechyd meddwl (Erthygl 17 o UNCRC)
- ystyried sut y mae modd iddyn nhw gefnogi dysgwyr i ddatblygu’r sgiliau, yr wybodaeth a'r cydnerthedd emosiynol y bydd eu hangen arnyn nhw i sicrhau eu hawliau, a hawliau pobl eraill
- sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn y trefniadau i gefnogi anghenion gofal iechyd disgyblion yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys unrhyw ddirprwyo priodol o gyfrifoldebau neu dasgau i'r pennaeth, i aelod o staff neu weithiwr

proffesiynol fel y bo’n briodol

- gweithio ar y cyd â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatblygu trefniadau gofal iechyd er lles pennaf y disgybl
- datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylai hyn gynnwys polisi ar anghenion gofal iechyd a lle bo hynny'n briodol, cynlluniau gofal iechyd ar gyfer dysgwyr penodol
- sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu’r trefniadau gofal iechyd
- sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, fel iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, asesiadau risg, Deddf Diogelu Data 2018, mesurau diogelu a gweithdrefnau brys, gan sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer mynd i'r afael ag argyfyngau gofal iechyd a digwyddiadau critigol ar gyfer gweithgareddau ar y safle ac oddi arno, gan gynnwys mynediad at feddyginiaeth frys fel anadlyddion neu binnau adrenalin
- sicrhau bod staff sydd â chyfrifoldeb am gefnogi disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael eu hyfforddi’n briodol
- sicrhau bod yswiriant priodol yn ei le, bod yna gydymffurfiaeth ag unrhyw amodau a bod staff yn glir ynghylch beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw wrth gefnogi disgyblion
- bod â pholisi atal heintiau sy’n adlewyrchu’n llawn y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi yn y canllawiau cyfredol

Bydd y Gwasanaeth Cynnal Llywodraethwyr yn sicrhau bod y Polisi Anghenion Gofal Iechyd yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

**Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles**
Bydd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn:

- cefnogi ysgolion i weithredu cynlluniau ailintegreiddio effeithiol ar ôl cyfnodau o absenoldeb meddygol a/neu absenoldeb oherwydd salwch tymor hir sydd ddim yn cosbi'r dysgwr
- rhoi gwybod am y cod cofrestru priodol ar gyfer cyfnodau o absenoldeb meddygol a/neu absenoldeb oherwydd salwch ac yn ystod unrhyw gyfnod lle mae'r dysgwr yn dychwelyd yn raddol i'w addysg
- cynnig cefnogaeth i ddysgwyr a'u teuluoedd trwy atgyfeiriad lles ar adegau o absenoldeb meddygol a/neu absenoldeb oherwydd salwch (absenoldebau sylweddol), os oes angen/os yw'n briodol

**Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant**
Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn:

- darparu cyngor i leoliadau addysg ar weithredu eu Polisi Gofal Iechyd yn effeithiol
- darparu cyngor a hyfforddiant penodol ar gefnogi disgyblion ag anawsterau corfforol
- rhoi mewnbwn i gyfarfodydd aml-asiantaeth i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu

**Penaethiaid**
Dylai'r pennaeth sicrhau bod trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd eu dysgwyr yn cael eu datblygu a’u gweithredu’n effeithiol. Gall hyn gynnwys:

- gweithio gyda’r corff llywodraethu i sicrhau cydymffurfio â’r dyletswyddau statudol perthnasol wrth gefnogi disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r trefniadau a'r camau gweithredu sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr yn eu deall yn llawn, yn eu gweithredu ac yn eu cynnal. Mewn lleoliadau addysg mwy o faint, mae'n bosibl y bydd yn fwy ymarferol dirprwyo rheolaeth anghenion gofal iechyd dysgwyr o ddydd i ddydd i aelod arall o staff. Dylai'r pennaeth oruchwylio'r trefniant yma yn uniongyrchol yn rhan o'r trefniadau adrodd a goruchwylio rheolaidd
- sicrhau bod y cymorth sy'n cael ei roi ar waith yn canolbwyntio ar anghenion y disgybl unigol ac yn eu diwallu, h.y. cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- ymestyn ymwybyddiaeth o anghenion gofal iechyd ledled y lleoliad addysg yn unol â hawl y disgybl i breifatrwydd. Gall hyn gynnwys staff cymorth, staff arlwyo a staff cyflenwi, llywodraethwyr, rhieni a dysgwyr eraill
- penodi aelod penodol o staff sy'n gyfrifol am ddisgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd, cysylltu â rhieni, disgyblion, y gwasanaeth dysgu gartref, yr Awdurdod Lleol, y gweithiwr allweddol ac eraill sy'n ymwneud â gofal y dysgwr
- sicrhau bod staff wedi'i hyfforddi ar gael i weithredu'r trefniadau sydd wedi'u nodi yn yr holl Gynlluniau Gofal Iechyd Unigol, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd brys ac absenoldeb staff
- cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol
- sicrhau bod modd i ddysgwyr ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd mewn lleoliad sy'n parchu eu preifatrwydd, e.e. toiledau preifat er mwyn gosod cathetr
- gwirio gyda'r Awdurdod Lleol a yw trefniadau yswiriant yn cynnwys gweithgareddau penodol ar gyfer cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd a sicrhau bod staff yn effro i unrhyw gyfyngiadau ar y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys
- sicrhau bod pob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd yn dod i gysylltiad â gwasanaeth cyngor ar iechyd y lleoliad addysg
- cytuno ar gymorth gofal iechyd priodol pan fydd dysgwr yn gwneud profiad gwaith ac ati, a sicrhau ei fod ar waith
- paratoi adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr
- sicrhau bod unrhyw ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd ddim yn cael eu heithrio o weithgareddau y bydden nhw fel arfer â'r hawl i gymryd rhan ynddyn nhw heb reswm clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol pan fydd dysgwr yn debygol o fod i ffwrdd o'r lleoliad addysg am gyfnod sylweddol, e.e. tair wythnos (boed hynny'n dair wythnos gyda'i gilydd neu ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn academaidd gyfan) oherwydd eu hanghenion gofal iechyd. Yn y pen draw, mae'r hyn sy'n gwneud cyfnod o absenoldeb yn 'sylweddol' yn y cyd-destun yma yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac a yw'r lleoliad yn gallu darparu addysg briodol i'r dysgwr. Gall cyfnodau byrrach o absenoldeb fod yn sylweddol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau
- bod yn ystyriol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai lleoliadau addysg fod yn gwbl effro i'r dull gweithredu yma a sicrhau bod cymorth i ddysgwyr yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio dull cyfannol
- sicrhau bod yr holl athrawon a staff cymorth yn y lleoliad addysg yn deall yn llawn ei bolisi a threfniadau anghenion gofal iechyd mewn perthynas â dysgwyr cyfredol ag anghenion gofal iechyd
- sicrhau bod aelodau dynodedig o staff sy'n cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn derbyn hyfforddiant digonol a phriodol ac yn cyflawni'r lefel angenrheidiol o gymhwysedd cyn iddyn nhw ddod yn gyfrifol am y dysgwyr yna. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant trin â llaw a chymorth cyntaf

**Cydlynydd Diogelu/Amddiffyn Plant**
Mae modd i Gydlynydd Diogelu/Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol gefnogi ysgolion lle mae pryderon diogelu a chynnal asesiadau risg lle bo hynny'n briodol.

**Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a gwasanaethau arbenigol eraill**
Mae gofal iechyd a chymorth ymarferol ar gael gan nifer o sefydliadau. Mae gyda lleoliadau addysg fynediad at wasanaeth cyngor ar iechyd y mae'r Awdurdod Lleol yn ei hybu'n eang. Mae'r gefnogaeth y mae'r gwasanaeth yn ei chynnig yn cynnwys:

- helpu i ysgrifennu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol a chynnig cyngor ar eu datblygu
- helpu i nodi'r hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y lleoliad addysg i weithredu Cynlluniau Gofal Iechyd unigol yn llwyddiannus
- cefnogi staff i weithredu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol dysgwyr trwy gyngor a chyswllt â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

Mae cyngor a chymorth hefyd yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol, fel meddygon teulu, paediatregwyr, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, deietegwyr a nyrsys diabetes arbenigol. Yn ogystal â hyn, mae cyrff gwirfoddol y trydydd sector yn darparu cyngor a chefnogaeth ymarferol. Drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â gwasanaethau arbenigol, mae modd cael cymorth ymarferol wrth ysgrifennu a gweithredu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol. Mae'r gwasanaethau yma hefyd yn darparu adnoddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys dolenni fideo.

**4. Creu amgylchedd hygyrch**

Mae gyda'r Awdurdod Lleol Strategaeth Hygyrchedd yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 (yn yr iaith wreiddiol):

> 'improving the physical environments of schools for the purpose of increasing the extent to which disabled learners are able to take advantage of education and benefits, facilities or services provided or offered by the schools' (Schedule 10, Equality Act 2010)

Mae'r strategaeth yma'n cael ei monitro'n barhaus ac yn cael ei hadolygu bob tair blynedd. Mewn modd tebyg, rhaid i ysgolion unigol gynnal gwaith cynllunio mewn perthynas â hygyrchedd, ac maen nhw o dan ddyletswydd i baratoi cynllun hygyrchedd sy'n dilyn yr un egwyddorion â'r strategaethau sy'n cael eu paratoi gan Awdurdodau Lleol.

Mae cyrff llywodraethu a lleoliadau addysg yn gyfrifol am sicrhau addasiadau rhesymol. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhaid darparu cymhorthion neu wasanaethau ategol (gyda'r nifer briodol o staff wedi'u hyfforddi)
- Teithiau ac ymweliadau preswyl
- Cymdeithasu
- Ymarfer corff a gweithgaredd corfforol
- Rheoli bwyd

**Asesiadau risg**
Dylai staff wybod pryd mae angen cynnal asesiad risg a gwybod am y systemau asesu risg sydd ar waith. Dylen nhw ystyried cynhwysiant o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys proses o geisio addasiadau neu weithgareddau amgen yn hytrach na darpariaeth ar wahân. Rhaid i staff fod yn effro i'r amrywiaeth o asesiadau risg sy'n ofynnol, e.e. materion trin â llaw, gweithgareddau oddi ar y safle. Mae penaethiaid a chyrff llywodraethu yn gwbl gyfrifol am gynnal asesiadau risg penodol.

Yn ogystal â hyn, mae dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i baratoi strategaethau a chynlluniau hygyrchedd a'u rhoi nhw ar waith. Mae'r strategaethau a'r cynlluniau yma'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â chynyddu cyfranogiad disgyblion anabl.

Mae modd i Wasanaeth Mynediad a Chynhwysiant RhCT ddarparu cyngor ac arweiniad i ysgolion ar asesu a rheoli risgiau mewn perthynas â dysgwyr unigol.

Dylid cwblhau atodiad 2 Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd ddim yn gallu gadael adeilad ar eu pennau eu hunain os bydd argyfwng neu os does dim modd dilyn gweithdrefnau gadael mewn argyfwng safonol.

## 5. Rhannu gwybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Llywodraethwyr yn darparu agendâu sy'n cynnwys cylchlythyrau Llywodraeth Cymru i'r holl ysgolion bob tymor. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau eu bod yn cyfathrebu trefniadau anghenion gofal iechyd (polisïau ehangach y lleoliad addysg a Chynlluniau Gofal Iechyd Unigol) yn glir gyda staff, rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn sicrhau eu gweithredu'n llawn. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth bob amser yn cael ei diweddaru. Rhaid i'r dysgwr a'r rhiant gytuno ar yr holl ddulliau rhannu gwybodaeth, e.e. hysbysfwrdd i'r staff a mewnrwyd yr ysgol, cyn eu defnyddio, er mwyn diogelu cyfrinachedd.

**Dylai athrawon, athrawon cyflenwi a staff cymorth (gall hyn gynnwys staff arlwyo a chontractwyr perthnasol)** fod â mynediad at yr wybodaeth berthnasol, yn enwedig os oes posibilrwydd o argyfwng. Bydd gweithredu hyn yn dibynnu ar y math o leoliad a'i faint. Byddai modd:

- lle y bo'n addas, ac ar ôl caniatâd priodol, defnyddio hysbysfwrdd mewn ystafell athrawon i arddangos gwybodaeth am anghenion iechyd risg uchel, staff cymorth cyntaf a thystysgrifau, gweithdrefnau brys, ac ati. Dylid nodi bod pob aelod o staff ddim yn defnyddio eu hystafell athrawon, byddai maint rhai lleoliadau addysgol yn golygu bod y dull yma o rannu gwybodaeth ddim yn ymarferol, a bod rhaid ystyried hawl y dysgwr i breifatrwydd bob amser.
- defnyddio mewnrwyd ddiogel y lleoliad addysg a chyfarfodydd staff i helpu i sicrhau bod staff yn effro i anghenion gofal iechyd eu dysgwyr neu ddysgwyr y mae'n bosibl y byddan nhw'n dod i gysylltiad â nhw. Hefyd, dylid rhoi gwybod i ddysgwyr am eu hawliau a'u cyfrifoldebau eu hunain (cofiwch fod rhaid i unrhyw drefniadau ar gyfer rhannu data personol gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018).

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai'r lleoliad addysg:

- sicrhau bod modd dod o hyd i bolisïau anghenion gofal iechyd ar-lein ac ar ffurf copi caled yn rhwydd
- darparu copi o'i bolisi rhannu gwybodaeth i'r dysgwr/rhieni. Dylai hyn ddatgan y math

o gyrff ac unigolion y mae modd rhannu gwybodaeth feddygol y dysgwr â nhw

- gofyn i rieni lofnodi ffurflen ganiatâd sy'n rhoi manylion clir y cyrff, yr unigolion a'r dulliau fydd yn gyfrwng rhannu gwybodaeth feddygol eu dysgwr. Gall rhannu gwybodaeth feddygol fod yn fater sensitif a dylai'r dysgwr fod yn rhan o unrhyw benderfyniadau. Dylai lleoliadau addysg gadw rhestr o'r wybodaeth sydd wedi'i rhannu â phwy a pham, i'r dysgwr/rhiant allu ei weld ar gais
- ystyried cynnwys dolen i'r polisïau anghenion gofal iechyd wrth gyfathrebu â rhieni, ac yng Nghynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr
- cynnwys cynghorau myfyrwyr, 'ysgolion iach' a grwpiau eraill i ddysgwyr wrth ddatblygu trefniadau gofal iechyd y lleoliad, lle y bo'n briodol
- ystyried sut y byddai modd i grwpiau ffrindiau a chyfoedion helpu dysgwyr, e.e. dysgu'r sbardunau neu'r arwyddion sy'n nodi bod problem gyda'r dysgwr, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng a phwy i ofyn iddo am gymorth. Dylai'r lleoliad addysg drafod â'r dysgwr a'r rhieni yn gyntaf a phenderfynu a ddylid rhannu'r wybodaeth.

## 6. Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr

Mae RhCT yn disgwyl i bob lleoliad addysg sefydlu gweithdrefnau sy'n nodi rolau/cyfrifoldebau pawb sy'n rhan o'r gwaith nodi, rheoli a gweinyddu anghenion gofal iechyd. Dylai'r dogfennau canlynol gael eu casglu ynghyd a'u cynnal, lle bo hynny'n briodol.

- Manylion cyswllt y gwasanaethau brys
- Cytundeb rhieni i'r lleoliad addysgol weinyddu meddyginiaeth
- Cytundeb pennaeth y lleoliad addysgol i weinyddu meddyginiaeth
- Cofnod o feddyginiaeth sy'n cael ei storio a'i gweinyddu i ddysgwyr unigol
- Cofnod o feddyginiaethau a gafodd eu gweinyddu i bob disgybl – yn ôl dyddiad
- Cais i ddysgwr weinyddu meddyginiaeth ei hun
- Cofnod o feddyginiaethau a gafodd eu gweinyddu i bob disgybl – yn ôl dyddiad
- Cofnod hyfforddiant staff – gweinyddu meddyginiaethau
- Adroddiad am ddigwyddiad meddyginiaeth

Dylai cofnodion newydd gael eu cwblhau pan fydd newidiadau i feddyginiaeth neu ddos. Dylai'r lleoliad addysg sicrhau bod yr hen ffurflenni wedi'u marcio'n glir fel rhai sydd ddim bellach yn berthnasol, a'u storio yn unol â'i bolisi cadw gwybodaeth.

Mae'n ofynnol bod yr holl gofnodion sy'n cael eu cadw yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018. Rhaid cofnodi pob achlysur o weinyddu meddyginiaeth ar y ffurflenni priodol. Os yw dysgwr yn gwrthod ei feddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau perthnasol lle bydd rhieni'n cael gwybod am y diffyg cydymffurfio cyn gynted â phosibl.

Mae'r enghreifftiau gorau o gadw cofnodion yn cynnwys systemau lle mae cofnodion anghenion gofal iechyd y dysgwr yn cael eu cadw ar ffurf electronig fel bod modd i'r staff priodol gael mynediad atyn nhw'n rhwydd a heb oedi. Mae systemau data hefyd yn golygu bod modd i staff sydd mewn ystafelloedd dosbarth â dysgwyr anghyfarwydd sydd â gofynion gofal iechyd gael mynediad at yr wybodaeth berthnasol.

## 7. Storio, mynediad a gweinyddu meddyginiaeth a dyfeisiau

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod polisi'r lleoliad addysg yn glir ynghylch y gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau. Bydd gweithdrefnau storio, mynediad a gweinyddu bob amser yn dibynnu ar gyd-destun y lleoliad addysg a gofynion y

dysgwr. Fodd bynnag, dylen nhw ystyried yr egwyddorion cyffredinol canlynol:

**Cyflenwi meddyginiaeth neu ddyfeisiau**

Ddylai lleoliadau addysg ddim storio meddyginiaeth dros ben. Dylid gofyn i rieni ddarparu cyflenwadau priodol o feddyginiaeth. Dylai'r rhain fod yn eu cynhwysydd gwreiddiol, wedi'u labelu gydag enw'r dysgwr, enw'r feddyginiaeth, dos ac amlder a'r dyddiad dod i ben. Yn ddieithriad, dylai lleoliadau addysg dderbyn meddyginiaethau ar bresgripsiwn a dyfeisiau sydd:

- â dyddiad cyfredol
- â'u cynnwys wedi'i labelu'n gywir ac yn glir
- wedi'u labelu ag enw'r dysgwr
- yn cynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer ei gweinyddu a'i storio a'r dos
- yn y cynhwysydd/pecyn gwreiddiol, yn unol â'r hyn a gafodd ei weinyddu gan y fferyllydd (ac eithrio inswlin sydd ar gael trwy gyfrwng pwmp)

Pan fo lleoliad addysg yn cadw meddyginiaeth heb ei rhagnodi, e.e. paracetamol ar ffurf hylif, dylai fod:

- â dyddiad cyfredol
- â'i chynnwys wedi'i labelu'n gywir ac yn glir
- wedi'i labelu ag enw'r dysgwr
- yn cynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer ei gweinyddu, ei storio a'r dos – gall hyn fod gan y rhiant
- yn ei gynhwysydd/pecyn gwreiddiol

**Storio, mynediad a gwaredu**

Er y dylid storio pob meddyginiaeth yn ofalus, bydd math y feddyginiaeth a'i defnydd yn pennu sut mae hyn yn digwydd. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gwybod ble mae eu meddyginiaeth yn cael ei storio a sut i gael gafael arni.

**Cadw yn yr oergell**

Mae angen cadw rhai meddyginiaethau mewn oergell. Bydd tymheredd yr oergell yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r gofynion storio. Mae'n iawn cadw meddyginiaethau mewn oergell sy'n cynnwys bwyd, ond dylen nhw fod mewn cynhwysydd aerglos sydd wedi'i labelu'n glir. Dylid ystyried oergell feddygol â chlo arni os oes angen storio llawer iawn o feddyginiaeth.

**Meddyginiaeth frys**

Rhaid i feddyginiaeth frys fod ar gael yn rhwydd i ddysgwyr sydd ei hangen bob amser yn ystod y dydd neu'n rhan o weithgareddau oddi ar y safle. Dylai meddyginiaethau a dyfeisiau fel anadlwyr asthma, mesuryddion profi glwcos a hunan-chwistrellwyr adrenalin (pen) fod ar gael i ddysgwyr ac nid o dan glo. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'w ystyried pan fydd y dysgwr y tu allan i safle'r lleoliad addysg, e.e. ar daith. Os yw'r feddyginiaeth frys yn gyffur a reolir, dylid ei chadw mor ddiogel â phosibl. Mae hyn er mwyn lleihau'r risg o fynediad heb ei awdurdodi ati. Fodd bynnag, rhaid cofio bod angen cael mynediad ati ar frys os yw hyn yn angenrheidiol mewn argyfwng. Er enghraifft, ddylai aelodau o staff ddim cadw allweddi ar eu person. Mae hawl gyda dysgwr sydd wedi cael cyffur a reolir ar bresgripsiwn ei gael yn eu meddiant, os ydyn nhw'n gymwys i wneud hynny, ond does dim hawl gyda nhw ei roi i ddysgwr arall na pherson arall heb awdurdod. Efallai y bydd rhaid monitro hyn.

Pan fydd staff yn gweinyddu meddyginiaeth frys i ddysgwr, dylid cofnodi hyn.

**Meddyginiaeth sydd ddim ar gyfer argyfwng**

Dylid cadw pob meddyginiaeth sydd ddim ar gyfer argyfwng mewn lle diogel gyda rheolaethau tymheredd neu olau priodol. Os yw'n gyffur a reolir, mae'n arfer da rhoi mesurau a rheolaethau ychwanegol ar waith.

**Cael gwared ar feddyginiaeth**

Pan does dim angen meddyginiaeth mwyach, dylid ei dychwelyd at y rhieni perthnasol iddyn nhw drefnu cael gwared arni mewn modd diogel. Rhaid defnyddio blychau eitemau miniog bob amser ar gyfer gwaredu nodwyddau ac offer miniog arall, a'u gwaredu'n briodol.

**Gweinyddu meddyginiaeth**

- Os yw'r dysgwr o dan 16 oed, mae angen caniatâd rhieni i roi cymorth neu weinyddu meddyginiaeth ar bresgripsiwn neu feddyginiaeth sydd ddim ar bresgripsiwn, oni bai bod cymhwysedd Gillick wedi'i gofnodi. Dylid cofnodi gweinyddu pob meddyginiaeth
- Os yw presgripsiwn meddyginiaeth yn nodi y dylid ei gweinyddu ar amlder ac y mae modd ei gweinyddu yn y cartref yn rhan o'i chwrs dyddiol, dylai rhieni geisio gwneud hynny, e.e. cyn ac ar ôl yr ysgol a gyda'r hwyr. Bydd yna achosion lle fydd hyn ddim yn briodol
- Ddylai dysgwyr o dan 16 oed fyth gael aspirin na'i ddeilliadau oni bai ei fod wedi cael ei roi ar bresgripsiwn iddyn nhw
- Oni bai bod cynllun wedi'i gytuno sy'n golygu bod modd i'r dysgwr weinyddu meddyginiaeth ei hun (16 oed ac yn hŷn neu gymhwysedd Gillick), dylai aelod o staff weinyddu pob meddyginiaeth. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen i hyn gael ei oruchwylio yn unol â'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol
- Dylai meddyginiaeth gael ei gweinyddu gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol yn unig. Dylai'r staff wedi'u hyfforddi yma bob amser fod yn agos at y dysgwyr y maen nhw'n eu cefnogi
- Dylai staff wirio'r dos uchaf a maint ac amser unrhyw ddos blaenorol a gafodd ei weinyddu
- Gall rhai gweithdrefnau meddygol ofyn bod oedolyn o'r un rhywedd â'r dysgwr yn gweinyddu'r feddyginiaeth, ac efallai y bydd angen ail oedolyn yn dyst. Rhaid ystyried barn a theimladau'r dysgwr ynglŷn â nifer a rhywedd y rheiny sy'n cynorthwyo wrth ddarparu gofal personol. Yn ôl y gyfraith, does dim rhaid cael mwy nag un person yn cynorthwyo. Dylai hyn gael ei gytuno a'i adlewyrchu yn y Cynllun Gofal Iechyd Unigol a'r asesiad risg
- Dylai'r lleoliad addysg fod â pholisi Gofal Personol (cyfeiriwch at ganllawiau RhCT ar ysgrifennu polisi Gofal Personol). Dylid ei ddilyn, ac eithrio bod trefniadau amgen wedi'u cytuno, a'u cofnodi yng Nghynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr
- Os yw dysgwr yn gwrthod ei feddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau perthnasol, gan roi gwybod i'w rieni cyn gynted â phosibl. Os yw dysgwr yn camddefnyddio unrhyw feddyginiaeth, dylid rhoi gwybod i'w rieni cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylai'r lleoliad addysg ofyn i rieni geisio cyngor gofal iechyd fel y bo'n briodol. Os does dim modd cysylltu â'r rhieni ar unwaith, mae angen i staff ystyried ceisio cyngor gofal iechyd ar unwaith
- Dylai staff sy'n ymwneud â gweinyddu meddyginiaeth fod yn gyfarwydd â sut mae dysgwyr yn cydsynio i driniaeth. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru: *Caniatâd Cleifion i Archwiliad a Thriniaeth – Canllawiau Diwygiedig* (GIG, 2008)
- Dylai pob aelod o staff sy'n cefnogi ymweliadau oddi ar y safle fod yn effro i ddysgwyr

sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylen nhw dderbyn yr wybodaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod modd i staff hwyluso profiad cystal i'r dysgwr â'r hyn a fyddai'n ei gael yn y lleoliad addysg. Gall yr wybodaeth yma gynnwys materion iechyd a diogelwch, yr hyn i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth angenrheidiol ychwanegol arall y mae'r dysgwr ei angen, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer

**8. Gweithdrefnau brys**

Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod polisi ar waith ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd argyfwng. Dylai staff wybod pwy sy'n gyfrifol am y polisi, y swyddogion cymorth cyntaf sydd wedi eu henwebu a sut i fynd i'r afael ag anghenion gofal iechyd cyffredin. Mewn sefyllfaoedd lle mae angen cymorth brys, dylid ffonio 999 ar unwaith. Dylai lleoliad cofnodion gofal iechyd dysgwyr a manylion cyswllt brys fod yn hysbys i staff.

Os oes gyda dysgwr Gynllun Gofal Iechyd Unigol, dylai hyn ddiffinio'n glir beth yw argyfwng ac egluro'r hyn sydd raid ei wneud. Dylai staff fod yn effro i symptomau a gweithdrefnau brys.

Dylai dysgwyr eraill yn y lleoliad addysg wybod beth i'w wneud yn gyffredinol mewn argyfwng, e.e. rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith. Os oes angen mynd â dysgwr i'r ysbyty, dylai aelod o staff aros gyda'r dysgwr nes bod rhiant yn cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys ei hebrwng mewn ambiwlans i'r ysbyty. Dylai fod gyda'r aelod o staff fanylion unrhyw anghenion gofal iechyd a meddyginiaeth hysbys.

**9. Hyfforddiant**

Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod staff sy'n gwirfoddoli neu sydd wedi'u contractio i gefnogi'r rheiny ag anghenion gofal iechyd yn derbyn hyfforddiant priodol. Dylai cyrff llywodraethu hefyd sicrhau bod eu polisïau'n nodi'n glir sut y bydd nifer ddigonol o'r staff yma'n cael eu nodi a'u cefnogi.

Wrth gynorthwyo dysgwyr â'u hanghenion gofal iechyd, dylid cydnabod mai rôl y staff yw hwyluso'r dysgwr i ddiwallu ei anghenion gofal iechyd ei hun, gan fod dim angen unrhyw hyfforddiant arbenigol mewn perthynas â nifer fawr o ymyriadau.

Mae hyn yn cynnwys symud a thrin a thrafod dysgwyr sy'n methu â symud eu hunain yn gorfforol yn annibynnol, a hynny mewn ffordd ddiogel. Yn yr achosion yma, mae gofyn i ysgolion ddewis aelodau staff priodol i gyflawni'r hyfforddiant. Mae'r hyfforddiant yn gofyn bod gyda'r staff y gallu corfforol, a hynny oherwydd gofynion yr hyfforddiant a'r rôl sy'n deillio o hynny. Dylai hyn fod yn isafswm o ddau aelod o staff ym mhob ysgol, er y bydden ni'n argymell hyd at bedwar lle mae gyda'r dysgwr anghenion corfforol sylweddol, a hynny er mwyn sicrhau bod modd diwallu anghenion y dysgwr bob amser, e.e. absenoldebau staff.

Mae'n bosibl y bydd Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn adlewyrchu anghenion cymhleth sy'n gofyn i staff gael gwybodaeth a hyfforddiant penodol. Gall yr hyfforddiant yma hefyd ymwneud â defnyddio cymhorthion, e.e. cymhorthion clyw (dylid dangos i staff sut mae newid batris) ac amryw offer a/neu dechnoleg sydd wedi'i haddasu. Os yw'r rhain wedi'u rhoi ar waith gan weithwyr iechyd proffesiynol, mae modd gofyn iddyn nhw roi cyngor addas ar gyfer y lleoliad addysg, yn ogystal â dysgwyr a'u teuluoedd.

Dylai'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu fod yn ddigonol i sicrhau bod staff yn gymwys, a'u bod yn hyderus yn eu gallu i gefnogi dysgwyr a chyflawni gofynion y Cynllun Gofal Iechyd

Unigol. Yn anad dim, dylai’r hyfforddiant yma gynnwys mewnbwn gan y dysgwr a’r rhieni, sy’n aml yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwybodaeth am sut y mae modd diwallu anghenion. Serch hynny, ni ddylid dibynnu'n llwyr ar rieni i ddarparu hyfforddiant am anghenion gofal iechyd eu plentyn.

Os oes gyda dysgwr anghenion cymhleth, efallai y bydd angen mewnbwn gan wasanaethau gofal iechyd a’r Awdurdod Lleol. Bydd modd iddyn nhw roi cyngor a chyfeirio at hyfforddiant a chymorth pellach.

Mae'n bosibl bydd yr holl staff, p’un ag ydyn nhw wedi gwirfoddoli i gynorthwyo neu gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, yn dod i gysylltiad â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Dyma gynghori felly bod gyda'r holl staff ddealltwriaeth sylfaenol o gyflyrau cyffredin er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod symptomau ac yn deall ble i geisio cymorth priodol.

Dylai polisïau lleoliadau addysg gynnwys gweithdrefn ar sut i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau cyffredin, polisi anghenion gofal iechyd a rolau staff wrth gynnal camau gweithredu a threfniadau. Dylai staff newydd a thros dro yn arbennig fod yn effro i’r mesurau ataliol a brys sydd ar waith, fel bod modd iddyn nhw adnabod yr angen am ymyrraeth ac ymateb yn gyflym.

Os dydy'r staff wedi'u hyfforddi sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth ddim ar gael, dylai'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol nodi trefniadau amgen. Mae angen mynd i'r afael â hyn hefyd wrth asesu risg a chynllunio gweithgareddau oddi ar y safle.

## 10. Arholiadau cymhwyster ac asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol

Mae cyswllt effeithlon ac effeithiol yn hanfodol pan fydd dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn wynebu asesiadau, yn cynnwys y rheiny sy’n sefyll arholiadau mewn ysbyty neu gartref, neu drwy ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yr Awdurdod Lleol.

Mae modd i gyrff dyfarnu wneud trefniadau arbennig ar gyfer dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu parhaol neu hirdymor, neu anableddau a salwch dros dro, sy’n sefyll arholiadau cyhoeddus fel TGAU neu Safon Uwch. Dylai ysgolion gyflwyno ceisiadau am drefniadau arbennig i’r cyrff dyfarnu mor gynnar ag sy'n bosibl. Mae canllawiau llawn ar yr ystod o drefniadau arbennig sydd ar gael a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud ceisiadau i'w gweld yng nghyhoeddiad y Cyd-Gyngor Cymwysterau *'A guide to the special consideration Process General and Vocational Qualifications 2022/23 '*(2022). Mae'r rhain ar gael ar wefan y Cyd-Gyngor Cymwysterau.

Dylid seilio addasiadau neu amser ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy’n dilyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth yn arferol ar gyfer anghenion penodol. Mae disgwyl i athrawon ddefnyddio'u barn broffesiynol wrth gefnogi dysgwyr. Dylai ysgolion ddefnyddio eu barn broffesiynol a dilyn canllawiau ar-lein ar yr asesiadau ar-lein addasol ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

## 11. Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)

Mae gydag Awdurdodau Lleol ddyletswydd (adrannau 19(1) a 19(4) o Ddeddf Addysg 1996) i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg sy’n addas ar gyfer yr holl blant a phobl ifainc o oed ysgol gorfodol a fydd, o ganlyniad i'w hanghenion gofal iechyd, o bosib yn methu â mynychu eu lleoliad addysg prif ffrwd am gyfnod penodol.

Dylid nodi anghenion addysgol dysgwyr sy'n methu â mynychu eu lleoliad addysg oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, a dylen nhw gael cymorth addysgol ar frys fel eu bod yn parhau i dderbyn addysg briodol. Mae hyn yn golygu addysg sy'n addas i oed, gallu, dawn y dysgwr ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol arbennig (ADY) sydd ganddo. Dylai'r ddarpariaeth ymateb i anghenion statws iechyd a allai newid, yn ogystal ag adlewyrchu'r anghenion hynny.

Yn achos absenoldeb byr (sy'n debygol o barhau am lai na 15 diwrnod ysgol) bydd yr ysgol yn darparu gwaith i'w gwblhau gartref, os yw cyflwr y dysgwr yn caniatáu hynny, ac yn cefnogi'r dysgwr i ymgyfarwyddo ar ôl dychwelyd. Bydd yr Awdurdod Lleol a'r ysgol yn ystyried unrhyw gyfnod o addysg sy'n cael ei ddarparu yn yr ysbyty wrth ystyried a oes angen iddo ddarparu EOTAS i ddysgwr, a'r hyn i'w ddarparu. Os yw'r dysgwr wedi bod yn yr ysbyty ac wedi derbyn addysg yno, gall ei gynnydd a'i brofiadau mewn perthynas â'r cwricwlwm fod yn wahanol i rai ei gyfoedion yn yr ysgol. Er hynny, bydd cymaint o barhad ag y bo modd yn cael ei sicrhau. Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cymaint o wersi ag y mae cyflwr y dysgwr yn ei ganiatáu, ac sy'n fuddiol iddo, gan ystyried yr hyn sy'n addas ar gyfer y dysgwr. Efallai y bydd raid rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwr sydd ar gwrs sy'n arwain at gymwysterau.

Lle bydd modd rhagweld absenoldebau, neu eu bod yn hysbys ymlaen llaw, dylai cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r Awdurdod Lleol alluogi'r gwasanaeth EOTAS i gael ei ddarparu o ddechrau'r absenoldeb.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried unrhyw gyfnod o addysg sy'n cael ei ddarparu yn yr ysbyty wrth ystyried a oes angen iddo ddarparu EOTAS i ddysgwr, a'r hyn i'w ddarparu. Os yw'r dysgwr wedi bod yn yr ysbyty ac wedi derbyn addysg yno, gall ei gynnydd a'i brofiadau mewn perthynas â'r cwricwlwm fod yn wahanol i rai ei gyfoedion yn yr ysgol. Er hynny, bydd cymaint o barhad ag y bo modd yn cael ei sicrhau. Bydd Gwasanaeth EOTAS yr Awdurdod Lleol yn ystyried cyflwr y dysgwr wrth gynllunio pecyn cymorth pwrpasol, gan ystyried yr hyn sy'n addas iddo. Efallai y bydd raid rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwr sydd ar gwrs sy'n arwain at gymwysterau.

Mae gyda'r Awdurdod Lleol bolisi ysgrifenedig ynghylch EOTAS sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

Mae cydweithredu rhwng y rhieni/staff EOTAS ac athrawon prif ffrwd yn sail i ddarparu rhaglen addysg effeithiol i ddysgwyr. Gall dysgwyr ag anghenion gofal iechyd cymhleth gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chynllun gofal ysgrifenedig. Pan fydd hyn yn digwydd, dylai'r cynllun gofal ysgrifenedig gael ei integreiddio i unrhyw Gynllun Gofal Iechyd Unigol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod gyda'r ysgol rôl allweddol i'w chwarae wrth integreiddio (neu ail-integreiddio) dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd ar ôl iddyn nhw gael diagnosis. Mae'r Awdurdod Lleol yn disgwyl i leoliadau addysg fod yn rhagweithiol wrth weithio â'r holl asiantaethau, gan gynnwys dysgwyr eraill wrth gefnogi'r broses bontio. Bydd y staff yn cael gwybod mewn da bryd bod y dysgwr yn dychwelyd er mwyn helpu â'r broses yma. Mae'r gefnogaeth yn cael ei hystyried gan bartïon allweddol, gan gynnwys y rhiant a'r dysgwr, ac mae hyn yn cael ei hadlewyrchu yn y Cynllun Gofal Iechyd Unigol. Pan fydd dysgwr yn cael ei ryddhau o'r ysbyty, dylid darparu gwybodaeth briodol i'w rieni. Bydd yr wybodaeth yma wedyn yn cael ei rhannu â lleoliadau addysg a fydd yn cysylltu â'r Gwasanaeth EOTAS fel sy'n briodol yn unol â pholisi EOTAS RhCT.

**Dysgwyr sy'n hŷn na'r oed ysgol gorfodol**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud trefniadau i ddysgwyr dros 16 oed, ond yn iau na 18 oed, barhau â'u haddysg, lle oherwydd salwch, mae angen iddyn nhw astudio i gwblhau eu cymwysterau. Lle mae gan y dysgwr ddatganiad o AAA, mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am y dysgwr yna nes ei fod yn 19 oed. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fyddai cwblhau blwyddyn academaidd yn naturiol neu gwblhau cwrs penodol yn mynd â dysgwr â datganiad y tu hwnt i'w ben-blwydd yn 19 oed - gweler *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig i Gymru* (2004), adran 9:61.

## 12. Cludiant i'r ysgol

Mae dyletswyddau statudol mewn perthynas â dysgwyr yn teithio i'r man lle maen nhw'n derbyn eu haddysg neu eu hyfforddiant. Mae rhagor o wybodaeth yn Llyfryn Dechrau'r Ysgol RhCT sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

## 13. Cynllun Gofal Iechyd Unigol

Mae'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn pennu pa gymorth y mae disgybl ei angen. Does dim angen i'r Cynllun fod yn hir nac yn gymhleth. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod eu polisi anghenion gofal iechyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phwy sydd â'r prif gyfrifoldeb dros baratoi'r Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol. Mae Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn hanfodol lle bydd anghenion gofal iechyd yn rhai cymhleth, newidiol, tymor hir, neu lle mae risg uchel y bydd angen ymyrraeth frys. Fodd bynnag, does dim angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol ar bob dysgwr ag anghenion gofal iechyd, a dylai fod proses ar waith i benderfynu pa ymyriadau sydd fwyaf priodol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â salwch tymor byr, e.e. y rheiny sy'n gofyn am wrthfiotigau, mae'n bosibl fydd dim angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol manwl. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae cofnodi enw'r feddyginiaeth, y dos, amser ei gweinyddu ac unrhyw sgil effeithiau posibl, yn ddigonol. Dylai'r gweithdrefnau hyn gael eu cadarnhau'n ysgrifenedig rhwng y dysgwr (lle bo hynny'n briodol), y rhieni a'r lleoliad addysg.

Serch hynny, pan fydd anghenion gofal iechyd parhaus neu ysbeidiol gan y disgybl, yna, mae angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol. Os yw'r anghenion yma'n gymhleth ac mae'r disgybl yn newid lleoliad, yna dylai'r gwaith paratoi ddechrau'n gynnar er mwyn helpu i sicrhau bod Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn ei le ar ddechrau'r tymor newydd.

### Rolau a chyfrifoldebau wrth greu a rheoli Cynllun Gofal Iechyd Unigol

Does dim angen i Gynllun Gofal Iechyd Unigol fod yn gymhleth ond dylai egluro sut y mae modd diwallu anghenion y dysgwr. Dylai Cynllun Gofal Iechyd Unigol fod yn hygyrch i bawb sydd angen cyfeirio ato, wrth gynnal y lefelau gofynnol o breifatrwydd. Dylai pob Cynllun gynnwys gwybodaeth a chamau allweddol sydd eu hangen i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol. Mae'n bosibl bydd y canlynol yn cael eu cynnwys wrth lunio Cynllun Gofal Iechyd Unigol manwl:

- y dysgwr
- y rhieni
- mewnbwn neu wybodaeth gan leoliad addysg blaenorol
- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol
- gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol

- y pennaeth a/neu’r unigolyn dirprwyedig sy’n gyfrifol am anghenion gofal iechyd yn y lleoliad
- athrawon a staff cymorth, gan gynnwys staff arlwyo
- unrhyw unigolion â rolau perthnasol, e.e. cydlynydd cymorth cyntaf, swyddog lles, a chydlynydd anghenion addysgol arbennig (Cydlynydd AAA)

Er y dylid llunio'r Cynllun o gwmpas anghenion pob dysgwr unigol, gall gynnwys:

- manylion yr angen gofal iechyd a disgrifiad o’r symptomau
- gofynion penodol, e.e. gofynion deietegol, rhagofalon cyn gweithgareddau (e.e. cyn dosbarthiadau addysg gorfforol)
- gofynion meddyginiaeth, e.e. dos, sgil-effeithiau, gofynion storio, trefniadau o ran ei gweinyddu
- datganiad o’r effaith (wedi'i lunio ar y cyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac athro) ynghylch sut mae cyflwr gofal iechyd a/neu driniaeth y dysgwr yn effeithio ar ei ddysgu a pha gamau sydd eu hangen i liniaru’r effeithiau yma
- camau gweithredu gofynnol
- protocolau brys a manylion cyswllt
- y rôl y gall y lleoliad addysg ei chwarae, e.e. rhestr o bethau i fod yn effro iddyn nhw
- dyddiadau adolygu a sbardunau adolygu
- rolau staff penodol, e.e. pwynt cyswllt i rieni, staff sy’n gyfrifol am weinyddu/goruchwylio meddyginiaeth, a threfniadau ar gyfer cyflenwi yn eu habsenoldeb
- materion rhannu gwybodaeth o ran caniatâd/preifatrwydd/sensitifrwydd
- anghenion hyfforddi staff, e.e. gwaith gweinyddol gofal iechyd, cymhorthion a thechnoleg wedi'i haddasu
- cadw cofnodion – sut bydd yn cael ei wneud, a pha wybodaeth fydd yn cael ei chyfleu i bobl eraill
- cludiant o’r cartref i’r ysgol – dyma gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol. Gall fod yn ddefnyddiol i'r Awdurdod Lleol wybod am Gynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr a’r hyn y mae’n ei gynnwys, yn enwedig mewn perthynas â sefyllfaoedd argyfwng

Nod y cynllun yw cofnodi’r camau sydd angen eu cymryd i helpu dysgwr i reoli ei gyflwr a goresgyn unrhyw bethau a allai ei rwystro rhag chwarae rhan lawn mewn addysg. Dylai’r rheiny sy’n llunio’r cynllun gytuno ar bwy fydd yn cymryd yr awenau, ond mae cyfrifoldeb dros sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau a’i weithredu’n aros gyda’r staff dynodedig yn yr ysgol. Mae llawer o sefydliadau'r trydydd sector wedi creu templedi Cynllun Gofal Iechyd Unigol sy'n benodol i gyflyrau y byddai modd eu defnyddio.

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod y cynlluniau’n cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, neu’n amlach os daw tystiolaeth newydd i law bod anghenion y disgybl wedi newid. Dylen nhw gael eu paratoi gyda lles gorau'r disgybl mewn golwg gan sicrhau bod y lleoliad addysg – gyda'r gwasanaethau arbenigol (os oes angen) – yn asesu'r risgiau i addysg, iechyd a lles cymdeithasol y dysgwr.

Os yw'r disgybl ag ADY, dylid cysylltu'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol ag unrhyw gynllun addysg unigol, cynllun datblygu unigol neu Ddatganiad AAA.

**Cydlynu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, y dysgwr a'r rhieni**

Mae'r ffordd y mae anghenion gofal iechyd dysgwr yn cael eu rhannu â gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd yn dibynnu ar ei ofynion a'r math o leoliad addysg. Dylai'r CIU esbonio sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a phwy fydd yn gwneud hyn. Caiff yr unigolyn yma fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer rhieni a staff a byddai'n cysylltu ag asiantaethau allanol.

**Cyfrinachedd**

Mae’n bwysig bod yr holl staff perthnasol (gan gynnwys staff dros dro) yn effro i anghenion gofal iechyd eu dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i CIUau. Bydd CIUau yn debygol o gynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Rhaid i drefnau rhannu a chadw gwybodaeth gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a pheidio â thorri hawliau preifatrwydd na dyletswydd cyfrinachol sy’n ddyledus i’r unigolion.

**Rôl y dysgwr o ran rheoli ei anghenion gofal iechyd ei hun**

Anogir dysgwyr sy’n gallu gwneud hynny i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu meddyginiaethau a’u gweithdrefnau eu hunain. Adlewyrchir hyn yn CIU y dysgwr.

Lle bo modd, dylai fod modd i ddysgwyr gario eu meddyginiaeth a’u dyfeisiadau perthnasol eu hunain, neu allu cael mynediad cyflym iddyn nhw. Efallai y bydd angen lefel briodol o oruchwyliaeth ar rai dysgwyr.

Os yw dysgwr yn gwrthod cymryd meddyginiaeth neu gynnal gweithdrefn angenrheidiol, ni ddylai staff ei orfodi i wneud hynny ond yn hytrach, dilyn trefniadau’r lleoliad, y cytunwyd arnynt yn y CIU. Dylid rhoi gwybod i rieni cyn gynted â phosibl fel y gellir ystyried trefniant arall a dylid ceisio cyngor iechyd lle y bo’n briodol.

**Cadw cofnodion**

Rhaid cofnodi gweinyddu pob meddyginiaeth ar y ffurflenni priodol. Os yw dysgwr yn gwrthod ei feddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau diffiniedig lle bydd rhieni’n cael gwybod am y diffyg cydymffurfio hyn cyn gynted â phosibl.

Mae'r enghreifftiau gorau o gadw cofnodion yn cynnwys systemau lle mae cofnodion anghenion gofal iechyd dysgwr wedi'u mewnbynnu ar gyfrifiadur er mwyn i'r staff priodol gael mynediad cyflym a hawdd. Caiff systemau data ganiatáu i staff gael mynediad hawdd i'r wybodaeth angenrheidiol mae modd ei rhoi mewn ystafelloedd dosbarth lle nad yw'r staff yn gyfarwydd ag anghenion gofal iechyd y dysgwyr.

Rhaid i drefnau gweithredu systemau o'r fath gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018.

**14. Trefniadau yswiriant**

Mae'r Awdurdod Lleol yn disgwyl bod gan gyrff llywodraethu lleoliadau addysg a gynhelir lefel briodol o yswiriant yn ei lle ar gyfer gweithgareddau'r lleoliad o ran cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai lefel yr yswiriant adlewyrchu lefel y risg yn briodol. Efallai y bydd angen trefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau, e.e. gweithgareddau oddi ar y safle ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol.

Cyn cynnal unrhyw weithdrefnau meddygol, rhaid bod staff Cyngor RhCT wedi'u hyfforddi a'u hasesu gan weithwyr proffesiynol â'r hyfforddiant priodol ac sydd i'w gweld yn gymwys o ran y weithdrefn briodol. Mae angen tystiolaeth ysgrifenedig trwy asesiad risg a/neu hyfforddiant perthnasol a/neu asesiad cymhwysedd.

Cyn belled â bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau a'i asesu, bydd staff RhCT o dan Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (yn amodol ar ei delerau, amodau ac eithriadau). Mae'n bosibl na fydd hyn yn cynnwys staff cyflenwi os ydyn nhw wedi'u cyflogi gan asiantaeth gyflenwi annibynnol. Yn achlysurol, mae'n bosibl y bydd angen polisi yswiriant ar wahân i yswirio gweithdrefn iechyd benodol.

Rhaid rhoi gwybod i Wasanaeth Cynnal Dysgu RhCT am ddisgyblion sydd â chathetrau dros dro y maen nhw'n eu gosod eu hunain neu unrhyw weithdrefnau mewnwthiol eraill sy'n tarfu ar y corff y mae angen ymgymryd â nhw tra bod disgyblion yn yr ysgol neu yn ein gofal.

**15. Gweithdrefn cwynion**

Os na fydd y dysgwr neu'r rhiant yn fodlon â threfniadau gofal iechyd lleoliad addysg, mae ganddyn nhw hawl i wneud cwyn. Rhaid i gorff llywodraethu pob lleoliad addysg gyhoeddi ei weithdrefn cwynion ffurfiol, gan gynnwys sut gall cwynion gael eu dwysáu o athro i bennaeth, yna i'r corff llywodraethu, ac yna i'r Awdurdod Lleol. Dylai'r weithdrefn cwynion fod wedi ei chrynhoi ym mholisi'r lleoliad addysg o ran cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Rhaid i Bolisi Cwynion yr ysgol fod ar gael ar wefan yr ysgol. Caiff rhieni ofyn yn uniongyrchol i'r ysgol am gopi o'r Polisi Cwynion.

Os bydd cwyn yn cael ei dwysáu i'r Awdurdod Lleol, bydd polisi cwynion corfforaethol yr Awdurdod Lleol yn cael ei ddilyn. Mae modd gweld y polisi cwynion corfforaethol yma:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/CommentsComplimentsandComplaints/Commentscomplimentsandcomplaintsprocedure.aspx

Os bydd y gŵyn yn gysylltiedig â Deddf Cydraddoldeb 2010 anabledd, yna mae modd ystyried herio hyn yn Nhribiwnlys Addysg Cymru (TAC).

**16. Adolygu polisïau, trefniadau a gweithdrefnau**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu'r polisi hwn a'i becyn cymorth cysylltiedig a'i ddiwygio os bydd unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu bolisi sylweddol. Os bydd unrhyw newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth neu bolisïau yn ystod y cylch, bydd y polisi yn cael ei ddiwygio yn ôl yr angen.

Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw sicrhau bod y polisi yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Rhaid i leoliadau addysg fod yn effro bod angen adolygiadau aml ar Gynlluniau Gofal Iechyd Unigol gan ddibynnu ar yr angen gofal iechyd – dylai hyn gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, y dysgwr, rhieni, gweithwyr proffesiynol ym meysydd addysg ac iechyd a chyrff perthnasol eraill. Caiff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant roi cyngor a chyfarwyddyd o ran y maes yma.

**17. Arfer i'w osgoi**

Dydy hi ddim yn arfer da mewn lleoliad addysg yn RhCT i wneud y canlynol:

- atal dysgwyr rhag mynychu lleoliad addysg oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, oni bai, wrth fynychu'r lleoliad, y bydden nhw'n debygol o achosi niwed (i'r dysgwr neu i eraill)
- atal dysgwyr rhag cael mynediad i'w hanadlyddion neu feddyginiaeth arall, nac eu hatal nhw rhag cymryd eu meddyginiaeth pan a lle bo'n angenrheidiol
- tybio bod angen trin dysgwyr sydd â'r un cyflwr yn yr un modd
- anwybyddu barn y dysgwr neu'r rhieni, nac anwybyddu tystiolaeth neu farn gweithiwr gofal iechyd (er bod modd ymholi ynghylch y barn yma a cheisio barn pobl eraill mewn ffordd brydlon)
- anfon dysgwyr ag anghenion gofal iechyd adref yn aml nac eu rhwystro nhw rhag aros i wneud gweithgareddau arferol, gan gynnwys cinio, oni bai bod hyn wedi'i nodi yn y CIU
- anfon dysgwr mae angen cymorth arno neu sy'n dod yn sâl i ystafell feddygol neu brif swyddfa ar ei ben ei hun neu gyda rhywun nad oes modd iddo ei fonitro'n briodol
- cosbi dysgwr am ei gofnod presenoldeb os yw'r absenoldeb yn ymwneud â'i anghenion gofal iechyd. Ddylai 'absenoldebau awdurdodedig', gan gynnwys apwyntiadau gofal iechyd, amser i deithio i'r ysbyty neu i apwyntiad, ac amser gwella ar ôl triniaeth neu salwch, ddim cael eu defnyddio i gosbi dysgwr mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) cymryd rhan mewn gweithgareddau a theithiau neu ddyfarniadau sy'n cymell presenoldeb
- gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol ar gyfer dysgwr sydd ar gam hwyrach. Dylid gwneud cais amdanyn nhw mewn da bryd. Dylai ystyriaeth gael ei rhoi i addasiadau neu'r amser sydd ei angen mewn arholiadau ffug neu brofion eraill
- atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu fynd i'r tŷ bach pryd bynnag mae angen gwneud hyn er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd mewn modd effeithiol
- gofyn i rieni ddod i'r lleoliad addysg, yng nghwmni ar deithiau neu weithgareddau eraill oddi ar y safle, i roi meddyginiaeth neu ddarparu cymorth gofal iechyd ar gyfer y dysgwr, gan gynnwys cymorth yn y tŷ bach - neu'n gwneud iddyn nhw deimlo bod rhaid gwneud hyn
- disgwyl neu beri i riant roi'r gorau i weithio neu ymrwymiadau eraill oherwydd bod y lleoliad addysg yn methu â darparu ar gyfer anghenion gofal iechyd y dysgwr
- gofyn i ddysgwr adael yr ystafell ddosbarth neu weithgaredd os bydd angen rhoi meddyginiaeth nad yw'n bersonol neu fwyta yn unol â'i anghenion iechyd
- rhwystro neu greu rhwystrau diangen i gyfranogiad dysgwr mewn unrhyw agwedd o'i addysg, gan gynnwys teithiau, e.e. drwy ofyn i riant ddod yng nghwmni'r dysgwr.

Mae'r awdurdod lleol yn monitro arfer da mewn perthynas â chefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yn rhan o'i brosesau cefnogi a herio ar gyfer lleoliadau addysg mewn cydweithrediad a Phartneriaid Gwella Consortiwm Canolbarth y De. Mae presenoldeb carfanau dysgwyr sy'n agored i niwed yn cael ei fonitro gan y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ac mae lleoliadau addysg yn cael cymorth yn ôl yr angen.

**18. Gwybodaeth Ychwanegol**

Am wybodaeth bellach a ffurflenni cyffredinol ynglŷn â chefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, darllenwch ganllawiau Llywodraeth Cymru. Rhif cyfeirnod 215/2017

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/cefnogi-dysgwyr-ag-anghenion-gofal-iechyd.pdf

**Atodiad 1**

## Amlinelliad o'r fframwaith cyfreithiol

O fewn y cyd-destun addysgol, caiff amryw ddyletswyddau eu gosod ar ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n berthnasol i ddiogelu a lles dysgwyr. Amlinellir y prif ddarpariaethau yn yr adrannau isod. Dydy'r amlinelliad hwn ddim yn rhestr gynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth berthnasol, a dydy'r adrannau unigol ddim yn ddatganiad awdurdodol nac yn ddisgrifiad o'r cyfreithiau eu hunain.

### Dyletswyddau statudol ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

- Wrth gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud â rhedeg yr ysgol, rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) hyrwyddo lles dysgwyr yn yr ysgol. (Adran 21(5) o Ddeddf Addysg 2002). Mae'r ddyletswydd yma yn berthnasol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion gofal iechyd.
- Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau sy'n ymwneud â rhedeg yr ysgol yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant (h.y. y rhai o dan 18 oed) sy'n ddysgwyr yn yr ysgol (gweler adran 175(2) o Ddeddf Addysg 2002).
- Mae cyrff llywodraethu hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – gweler isod.

### Dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol

- Mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau cyffredinol mewn perthynas â darparu addysg ar gyfer eu hardal (gweler yn benodol adrannau 13 i 14, 15A ac 15B o Ddeddf Addysg 1996).
- Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas (yn yr ysgol neu fel arall) ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol na fyddent fel arall yn ei derbyn am unrhyw gyfnod oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall (gweler adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996). Ar gyfer pobl ifainc (h.y. y rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol, ond o dan 18 oed), mae gan awdurdodau lleol bŵer (yn hytrach na dyletswydd) i wneud trefniadau o'r fath yn yr amgylchiadau hynny (gweler adran 19(4) o Ddeddf Addysg 1996). Wrth benderfynu pa drefniadau i'w gwneud o dan adran 19(1) neu (4) yn achos unrhyw blentyn neu berson ifanc, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant (h.y. dan 18 oed – gweler adran 175(1) o Ddeddf Addysg 2002).
- Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd o dan adran 15 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddarparu gwasanaethau yn eu hardal gyda'r diben o atal neu ohirio datblygiad anghenion pobl am ofal a chefnogaeth ac amrywiaeth o ddibenion cysylltiedig.
- Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng gwahanol bobl a chyrff. Mae hyn yn cynnwys bwrdd iechyd a GIG o fewn ardal yr awdurdod lleol. Rhaid i'r trefniadau gael eu gwneud gyda'r bwriad o:

  – gwella lles plant yn yr ardal

  - gwella ansawdd y gofal a chymorth i blant a ddarperir yn yr ardal
  - amddiffyn plant sy'n wynebu neu sydd mewn perygl o ddioddef camdrin, esgeuluso neu niwed arall (gweler adran 25 o Ddeddf Plant 2004).
- Mae Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999 S.I. 1999/2 yn nodi gofynion (cyfrifoldeb awdurdodau lleol) ynghylch cyfleusterau mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion o ran llety ar gyfer archwilio a thrin dysgwyr yn feddygol a gofalu am ddysgwyr sy'n sâl neu wedi'u hanafu (rheoliad 5).
- Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – gweler isod.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae anabledd yn "nodwedd gwarchodedig". Gall rhai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd fod yn anabl at ddibenion y Ddeddf honno; efallai na fydd eraill. Mae amrywiol ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n berthnasol yng nghyd-destun dysgwyr ag anghenion gofal iechyd sydd hefyd yn anabl.

Rhaid i gorff sy'n gyfrifol am ysgol beidio â gwahaniaethu, aflonyddu nac erlid dysgwyr anabl ac mewn rhai achosion, bersonau penodol eraill. Mae'r corff cyfrifol hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol (adran 85 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Rhaid i awdurdodau lleol lunio a gweithredu strategaeth hygyrchedd mewn perthynas ag ysgolion y maen nhw'n gorff cyfrifol amdanyn nhw. Mae hon yn strategaeth er mwyn (dros gyfnod penodol):

- cynyddu'r graddau y mae dysgwyr anabl yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol;
- gwella amgylchedd yr ysgolion er mwyn cynyddu'r graddau y gall dysgwyr anabl fanteisio ar addysg a manteision, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgolion
- gwella darpariaeth gwybodaeth i ddysgwyr anabl sydd ar gael yn rhwydd i ddysgwyr nad ydynt yn anabl.

(Gweler paragraff 1 o Atodiad 10 Deddf Cydraddoldeb 2010.)

Rhaid i gorff sy'n gyfrifol am ysgol lunio a gweithredu cynllun hygyrchedd. Mae cynnwys cynllun o'r fath yn debyg i gynnwys strategaeth hygyrchedd, heblaw ei fod yn berthnasol i'r ysgol benodol (paragraff 3 o atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010). Mewn perthynas ag ysgol a gynhelir a meithrinfa a gynhelir, y corff cyfrifol yw'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu. Mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, yr awdurdod lleol yw'r corff cyfrifol.

Mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydliadau addysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol (e.e. ysgolion a gynhelir) yn destun dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae hyn yn gofyn iddyn nhw, wrth iddyn nhw arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i faterion penodol yn ymwneud â chydraddoldeb (adran 149). Maen nhw hefyd o dan ddyletswyddau penodol at y diben o alluogi cyflawniad gwell o ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (gweler Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011 S.I.2011/1064).

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn un ddeddf sy'n dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella lles pobl mae angen gofal a chymorth arnyn nhw, a chynhalwyr y mae angen cefnogaeth arnyn nhw. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith statudol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adrannau gwasanaethau cymdeithasol integredig gyda gogwydd teuluol cryf.
- O safbwynt polisi a chyflawni Cymru, mae Deddf 2014 yn ceisio sicrhau bod y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i bobl ifainc yn cael eu darparu yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd o dan adran 15 o Ddeddf 2014 i ddarparu gwasanaethau ataliol yn eu hardal. Diben y gwasanaethau hyn fyddai atal neu ohirio datblygiad angen pobl am ofal a chefnogaeth.
- Datblygwyd Deddf 2014 gan ddefnyddio'r 'model pobl' sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i bobl (sef plant, oedolion a chynhalwyr) yn unol â'u hanghenion unigryw. Mae hyn yn golygu nad yw plant yn cael eu trin ar wahân ond yn hytrach fel rhan o deuluoedd a chymunedau. Mae hyn wedi caniatáu i Ddeddf 2014 ddarparu system ofal gydlynol a mwy integredig.
- Mae lles a'r deilliannau mae pobl yn dymuno eu cyflawni yn ganolog i'r ddeddfwriaeth; mae'r diffiniad o les yn y Ddeddf, ac yn y datganiad lles, ill dau'n cydnabod bod sicrhau hawliau yn allweddol i sicrhau bod plant yn gallu siarad drostynt eu hunain, neu gael rhywun a all wneud hynny ar eu rhan nhw fel eu bod yn cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Cyfraith Gwlad**

Fel rhan o gyfraith gwlad, mae gan y rheiny sy'n gyfrifol am ofal a goruchwylio plant, gan gynnwys athrawon a staff eraill yr ysgol sy'n gyfrifol am blant, ddyletswydd o ofal i weithredu fel y byddai unrhyw riant rhesymol ddoeth yn ei wneud wrth ofalu am eu plant eu hunain. Dylai unigolyn sy'n gyfrifol am ofal a goruchwylio plant wneud yr hyn sy'n rhesymol er mwyn diogelu neu hybu lles y plentyn. Fodd bynnag, mae hyn yn destun, er enghraifft, gorchymyn llys yn gwahardd cymryd camau penodol mewn perthynas â'r plentyn heb ganiatâd y llys (adran 3(5) o Ddeddf Plant 1989).

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('UNCRC')**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i UNCRC fel sail i ategu ei pholisïau ynghylch plant a phobl ifainc. Mae'r dull a amlinellir yn y ddogfen hon yn seiliedig ar ac yn gyson â darpariaethau UNCRC, sy'n cynnwys:

- bod gan blant yr hawl i addysg (Erthygl 28)
- y dylai oedolion feddwl am fuddiannau gorau plant a phobl ifainc wrth wneud dewisiadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 3)
- y dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael y gofal a'r cymorth sydd ei angen fel y gallant fyw bywyd llawn a gweddus (Erthygl 23)
- bod gan bob plentyn yr hawl i ddweud eu barn ymhob mater sy'n effeithio arnynt, a'r hawl i'w barn gael ei chymryd o ddifrif (Erthygl 12).

**Darpariaethau perthnasol eraill**

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn rheoleiddio prosesu data personol, sy'n cynnwys ei ddal a'i ddatgelu.

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mae Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001 yn ymdrin â chyfyngiadau (e.e. o ran meddiant) ar gyffuriau sy'n cael eu rheoli. Gall dysgwyr gael cyffuriau rheoledig trwy bresgripsiwn.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

**Atodiad 2**

# Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

## Taflen Ganllawiau:

## Llunio Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEPS)

## Dyddiad: Medi 2019

### Cyflwyniad

Mae'r canllawiau yma ar gyfer Penaethiaid i'w helpu nhw i lunio Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng effeithiol.

### Nod

Nod y PEEP yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i ddysgwyr nad oes modd iddyn nhw adael adeilad heb gymorth mewn argyfwng, a hynny er mwyn iddyn nhw allu rheoli dianc o’r adeilad. Bydd hyn hefyd yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r ysgol fel bod modd sicrhau bod y lefel gywir o gymorth ar gael bob amser i sicrhau trefnau gadael diogel. Mae'n debygol mewn ysgolion arbennig y bydd nifer o ddysgwyr yn dibynnu ar staff i'w helpu nhw i adael yn ddiogel.

### Cefndir

Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae'n cynnwys rhagofalon tân a dyletswyddau diogelwch tân eraill sydd eu hangen i amddiffyn pobl mewn tân mewn eiddo neu o'i gwmpas.

O ganlyniad i'r Gorchymyn, mae angen rhagofalon tân yn eu lle ac yn ôl yr hyn sy'n rhesymol ac yn ymarferol yn yr amgylchiadau. 'Y person cyfrifol' sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Gorchymyn.

Os mai chi yw'r person cyfrifol, rhaid i chi sicrhau bod asesiad risg tân yn cael ei gynnal gan berson cymwys sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch pawb mewn tân. Dylai'ch asesiad risg tân gynnwys cynllun gadael mewn tân i bawb sy'n debygol o fod yn yr eiddo, gan gynnwys pobl anabl, a sut bydd y cynllun dan sylw yn cael ei roi ar waith.

Os nad yw Pennaeth / Corff Llywodraethu yn gwneud darpariaeth i'w ddysgwyr adael eiddo yn ddiogel, mae'n bosibl y bydd hyn yn cael ei weld fel achos o wahaniaethu. Mae'n bosibl bydd hyn hefyd yn cyfateb i fethu â chydymffurfio â gofynion y Gorchymyn.

**Ddylech chi ddim dibynnu ar y gwasanaeth tân ac achub i helpu pobl i adael. Rhaid i'ch strategaeth gadael mewn argyfwng ddibynnu ar y ffactorau rydych chi'n gallu eu rheoli yn unig.**

## Cyfrifoldebau

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw nodi'r dysgwyr yna y bydd angen cymorth arnyn nhw mewn argyfwng. Os nad yw'r gweithdrefnau gadael mewn argyfwng presennol yn addas i bobl ag anableddau, bydd angen datblygu PEEP. Lle bo modd, dylai'r PEEP gael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r unigolyn i gytuno ar ba weithred fydd yn cael ei rhoi ar waith.

## Cyfeirnodau / Gwybodaeth Ychwanegol a Deunydd Darllen

Am ragor o wybodaeth a chyngor ymarferol o ran llunio PEEP, ewch i:

Fire Safety Risk Assessment- Means of Escape for Disabled People

## Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng

| **Logo'r Ysgol a Hysbysiad Preifatrwydd**<br><br>**Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**<br><br>Bydd yr wybodaeth ar y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol arall) yn cael ei defnyddio gan yr ysgol wrth helpu dysgwr i adael mewn argyfwng er ei les ac yn unol â'n dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch 1974, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a deddfwriaeth gysylltiedig. I ddysgu am sut mae preifatrwydd yn cael ei amddiffyn a sut a pham rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth bersonol i ddarparu addysg a gwasanaethau, ewch i'r tudalennau Diogelu Data ar ein gwefan i ysgolion. |
|---|

Dylai'r ffurflen PEEP gael ei defnyddio i ddatblygu cynllun unigol ar gyfer pob person anabl sydd wedi'i asesu ac mae angen cymorth arno i adael mewn argyfwng yn ôl y cynllun.

Dylai rhestr wirio'r PEEP gael ei defnyddio i gasglu'r wybodaeth berthnasol i'w chynnwys yn y cynllun.

Dylai'r PEEP gael ei adolygu ar ôl unrhyw newidiadau sylweddol, er enghraifft newid o ran cyflwr meddygol yr unigolyn, newid lleoliad, ac ati.

### Adran 1 – Gwybodaeth Gyffredinol

| | | |
|---|---|---|
| **Enw'r Asesydd:** | | |
| **Enw'r Disgybl:** | | |
| **Dyddiad yr Asesiad:** | | |
| **Natur y Nam(au)/Anabledd:** | | |
| **Maes(meysydd) (1) sy'n dod o dan yr Asesiad:** | | |
| **Pa amseroedd/diwrnodau (2) sy'n dod o dan yr asesiad yma?** | | |
| **Ydy Asesiad Risg Tân yr adeilad (3) yn nodi bod gan yr adeilad arfaethedig fynediad/allanfa addas.** | **Ydy** | **Nac ydy** |

### NODIADAU i'r Asesydd

(1) Dylai'r PEEP fod yn benodol i feysydd gweithgaredd unigol, a hynny mor ymarferol â phosibl. Er enghraifft, os mai'r bwriad yw cynnal nifer o weithgareddau mewn mannau ger allanfeydd fydd yn cael effaith ar ddianc trwy ddefnyddio'r un darpariaethau argyfwng, bydd hi'n bosibl asesu'r ddarpariaeth ar un ffurflen. Fel arfer, bydd modd i

bobl â nam ar y clyw gael eu hasesu ar un ffurflen gan fod y darpariaethau'n debygol o fod yr un peth, ni waeth beth fo'r lleoliad.

(2) Mae'n bwysig nodi yn y PEEP a fydd y man i'w asesu yn cael ei ddefnyddio y tu mewn i ardaloedd 'arferol' yr ysgol neu'r tu allan iddyn nhw. Mae'n debygol bydd mannau penodol yr adeiladau yn anhygyrch y tu allan i oriau arferol ysgol e.e. sicrhau diogelwch. Mae'n bwysig ystyried a oes angen newid y trefniadau yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae angen i'r PEEP ddangos bod hyn wedi'i ystyried yn ddigonol.

(3) Os nad yw man penodol yn bodloni gofyniad mynediad cyffredinol y dysgwr sy'n cael ei asesu, a hynny yn ôl asesiad adeilad, bydd angen trefniadau eraill. Unwaith bod y trefniadau yma wedi'u nodi, bydd angen cynnal PEEP newydd i sicrhau bod y lleoliad(au) yn ddigonol.

Dylai un o'r ffurflenni canlynol gael ei chwblhau gan yr asesydd a'r dysgwr wedi'i asesu (os yw'n briodol)

Ffurflen A - Nam Symudedd

Ffurflen B - Nam ar y Golwg

Ffurflen C - Nam ar y Clyw

Ffurflen D - Cyffredinol - Ar gyfer pob anabledd arall nad yw’n dod o dan ffurflenni A-C

# FFURFLEN A – DYSGWYR Â NAM SYMUDEDD

**Logo'r Ysgol a Hysbysiad Preifatrwydd**

**Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**

Bydd yr wybodaeth ar y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol arall) yn cael ei defnyddio gan yr ysgol wrth helpu dysgwr i adael mewn argyfwng er ei les ac yn unol â'n dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch 1974, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a deddfwriaeth gysylltiedig. I ddysgu am sut mae preifatrwydd yn cael ei amddiffyn a sut a pham rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth bersonol i ddarparu addysg a gwasanaethau, ewch i'r tudalennau Diogelu Data ar ein gwefan i ysgolion.

Dylai'r ffurflen PEEP gael ei defnyddio i ddatblygu cynllun unigol ar gyfer pob person anabl sydd wedi'i asesu ac mae angen cymorth arno i adael mewn argyfwng yn ôl y cynllun.

Dylai rhestr wirio'r PEEP gael ei defnyddio i gasglu'r wybodaeth berthnasol i'w chynnwys yn y cynllun.

Dylai'r PEEP gael ei adolygu ar ôl unrhyw newidiadau sylweddol, er enghraifft newid o ran cyflwr meddygol yr unigolyn, newid lleoliad, ac ati.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Yr adeilad mae'r PEEP yma yn berthnasol iddo:** | |
| **Lloriau i'w defnyddio:** | |

| | **a) Rhestr Wirio Gyffredinol** | ✓ | **x** |
|---|---|---|---|
| 1 | Ydy gweithdrefnau argyfwng cyffredinol wedi cael eu hesbonio? | | |
| 2 | Allai'r dysgwr seinio rhybudd pe bai'n dod o hyd i dân (gweithredu system canu larwm)? | | |
| 3 | Allai'r dysgwr agor drysau'r ddihangfa dân ar y llawr/lloriau bydd yn ei ddefnyddio/eu defnyddio? | | |
| 4 | Allai'r dysgwr ddefnyddio ffôn o'i gwmpas i ffonio'r gwasanaethau brys? | | |
| 5 | Ydy'r dysgwr yn defnyddio cadair olwyn heb fodur? | | |
| 6 | Beth yw bras amcan lled y gadair olwyn? | | |
| 7 | Os yw cymorth symudedd arall yn cael ei ddefnyddio, nodwch fanylion. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Allai'r dysgwr symud i gadair achub neu offer achub tebyg gyda chymorth mewn argyfwng? | | |
| | **b) Gweithgareddau ar y Llawr Gwaelod** | | |
| 9 | Adeg defnyddio'r adeilad, sawl allanfa dân sydd ar gael i bobl anabl? | | |
| 10 | Os oes 1 allanfa argyfwng ar gael yn unig, pa mor bell yw'r allanfa o'r ardal lle mae dysgwyr yn dechrau dianc? | | |
| 11 | Ydy'r llwybrau dianc yn rhydd h.y. dim nodweddion saernïol fydd yn achosi perygl neu rwystr i'r dysgwyr sy'n defnyddio unrhyw un o'r allanfeydd tân sydd ar gael? | | |
| 12 | Pa mor hir fyddai hi'n cymryd i ddysgwr adael yr adeilad, a hynny heb gymorth? (nodwch amser ar gyfer pob un o'r allanfeydd ar gael, hyd at 3) | **Munud** | |
| | | **Munud** | |
| | | **Munud** | |
| | **c) Mae angen i'r holl ddysgwyr â nam symudedd ar y llawr gwaelod fydd yn cael cymorth helpwyr llawn amser ateb y cwestiynau canlynol.** | | |
| 13 | Pwy fydd yn rhoi'r cymorth yma (nodwch enwau)? | | |
| 14 | Pwy fydd yn cyflenwi os bydd yr helpwr arferol yn absennol e.e. oherwydd salwch, gwyliau blynyddol, ac ati? (nodwch enwau) | | |
| | **d) Gweithgareddau ar lawr uwch na'r llawr gwaelod (neu mewn islawr â grisiau)**<br>**ASESWR:** Ydy pob posibilrwydd o ran symud y gweithgaredd neu ddarpariaeth gwasanaeth i lawr gwaelod yr adeilad yma (neu adeilad arall) wedi cael ei ystyried? | ✓ | **x** |
| 15 | Ydy'r ardal i'w defnyddio ar lawr uwch na'r llawr cyntaf? | | |
| 16 | Oes lifft gadael mewn argyfwng y mae modd ei ddefnyddio os bydd tân? | | |
| 17 | Adeg defnyddio'r adeilad, sawl allanfa dân sydd i'w defnyddio ar y llawr ar gael? | | |
| 18 | Ydy unrhyw un o'r llwybrau dianc yn cynnwys dianc i adeilad cyfagos sy'n caniatáu trefnau dianc llorweddol? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19 | Allai'r dysgwr symud i gadair achub neu offer achub tebyg mewn argyfwng? | | |
| 20 | Oes offer achub ar y llawr yma? | | |
| 21 | Ble mae'r offer achub eraill agosaf yn cael eu cadw? | | |
| 22 | Pa mor hir fyddai hi'n cymryd i ddysgwr gyrraedd man diogel mewn argyfwng, a hynny heb gymorth? (Nodwch amser ar gyfer pob allanfa sydd ar gael, hyd at 3) | **Munud** | |
| | | **Munud** | |
| | | **Munud** | |
| | **e) Mae angen i'r holl ddysgwyr â nam symudedd nad ydyn nhw ar y llawr gwaelod fydd yn cael cymorth helpwyr llawn amser ateb y cwestiynau canlynol.** | | |
| 23 | Pwy fydd yn rhoi'r cymorth yma? | | |
| 24 | Pwy fydd yn cyflenwi os bydd yr helpwr arferol yn absennol e.e. oherwydd salwch, gwyliau blynyddol, ac ati? | | |

**Rhiant/gwarcheidwad**

Rydw i'n effro i'r ffaith bod y Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng yma wedi'i gwblhau i sicrhau bod y mesurau addas yn eu lle pe bai argyfwng ac rydw i'n deall hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r rhiant/gwarcheidwad: | | Llofnod y rhiant/gwarcheidwad: | |
| Dyddiad: | | Nodiadau ychwanegol: | |

**Pennaeth**

- Rydw i'n cadarnhau bod yr wybodaeth yn y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ynghlwm) yn gywir.
- Rydw i wedi rhoi gwybod i'r rhiant/gwarcheidwad am y canlynol:
  - sut bydd y data personol yn cael ei ddefnyddio os bydd angen gadael mewn argyfwng.
  - sut mae modd iddyn nhw gael mynediad at eu hawliau gwybodaeth a gwybodaeth bellach trwy'r tudalennau Diogelu Data ar wefan yr ysgol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Pennaeth: | | Llofnod y Pennaeth: | |
| Dyddiad: | | Nodiadau ychwanegol: | |

# FFURFLEN B – POBL Â NAM AR Y GOLWG

| |
|---|
| **Logo'r Ysgol a Hysbysiad Preifatrwydd**<br><br>**Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**<br><br>Bydd yr wybodaeth ar y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol arall) yn cael ei defnyddio gan yr ysgol wrth helpu dysgwr i adael mewn argyfwng er ei les ac yn unol â'n dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch 1974, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a deddfwriaeth gysylltiedig. I ddysgu am sut mae preifatrwydd yn cael ei amddiffyn a sut a pham rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth bersonol i ddarparu addysg a gwasanaethau, ewch i'r tudalennau Diogelu Data ar ein gwefan i ysgolion. |

Dylai'r ffurflen PEEP gael ei defnyddio i ddatblygu cynllun unigol ar gyfer pob person anabl sydd wedi'i asesu ac mae angen cymorth arno i adael mewn argyfwng yn ôl y cynllun.

Dylai rhestr wirio'r PEEP gael ei defnyddio i gasglu'r wybodaeth berthnasol i'w chynnwys yn y cynllun.

Dylai'r PEEP gael ei adolygu ar ôl unrhyw newidiadau sylweddol, er enghraifft newid o ran cyflwr meddygol yr unigolyn, newid lleoliad, ac ati.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Yr adeilad mae'r PEEP yma yn berthnasol iddo:** | |
| **Lloriau i'w defnyddio:** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhestri Gwirio – Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng** | | | |
| **YMWYBYDDIAETH O WEITHDREFNAU GADAEL MEWN ARGYFNWG** | | ✓ | **x** |
| 1 | Ydy gweithdrefnau argyfwng cyffredinol wedi cael eu hesbonio? | | |
| 2 | Allai'r dysgwr seinio rhybudd pe bai'n dod o hyd i dân (gweithredu system canu larwm)? | | |
| 3 | All y dysgwr agor drysau'r ddihangfa dân ar y llawr (lloriau) bydd yn ei ddefnyddio? | | |
| 4 | Allai'r dysgwr ddefnyddio ffôn o'i gwmpas i ffonio'r gwasanaethau brys? | | |
| 5 | Oes angen y weithdrefn dianc mewn argyfwng ar ffurf sain ar y dysgwr? | | |
| 6 | Oes angen copi Braille o'r weithdrefn dianc mewn argyfwng ar y dysgwr? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 | Oes angen copi print bras o weithdrefn dianc mewn argyfwng ar ddisgybl? | | |
| 8 | All y dysgwr ddarllen arwyddion y ddihangfa dân? | | |
| 9 | Pa mor hir fyddai hi'n cymryd i adael yr adeilad heb gymorth pe bai argyfwng? | Munud | |
| 10 | Sawl llwybr dianc sydd ar gael i'r dysgwr mewn argyfwng? | | |
| 11 | Ydy'r holl beryglon arfaethedig neu elfennau saernïol wedi cael eu nodi ar lwybrau dianc y dysgwr? | | |
| | **b) mae angen ateb i'r bobl sydd â nam ar y golwg ac sydd â rhyw fath o alluedd o ran golwg ateb y cwestiynau canlynol** | | |
| 12 | Oes arwyddion ar gyfer pob llwybr dianc er mwyn bodloni gofynion y dysgwyr? | | |
| 13 | Lle bo modd, ydy pob coridor dianc wedi'i gynllunio i atal dysgwyr rhag drysu? | | |
| 14 | Lle bo modd, oes gan y grisiau dianc ymyl flaen a chanllaw addas mewn lliwiau sy'n cyferbynnu? | | |
| | **c) Mae angen i'r bobl â nam ar y golwg fydd yn defnyddio 'helpwyr' llawn amser yn yr adeilad y mae'r PEEP yma yn berthnasol iddo ateb y cwestiynau canlynol.** | | |
| 15 | Pwy fydd yn rhoi'r cymorth yma? | | |
| 16 | Pwy fydd yn cyflenwi os bydd yr helpwr arferol yn absennol e.e. oherwydd salwch, gwyliau blynyddol, ac ati (nodwch enwau) | | |
| 17 | Ydych chi'n effro i unrhyw fesurau eraill mae modd eu cyflwyno yn yr adeilad dan sylw fyddai, o bosibl, yn helpu gweithdrefnau gadael mewn argyfwng? | | |

**Rhiant/gwarcheidwad**

Rydw i'n effro i'r ffaith bod y Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng yma wedi'i gwblhau i sicrhau bod y mesurau addas yn eu lle pe bai argyfwng ac rydw i'n deall hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r rhiant/gwarcheidwad: | | Llofnod y rhiant/gwarcheidwad: | |
| Dyddiad: | | Nodiadau ychwanegol: | |

**Pennaeth**

- Rydw i'n cadarnhau bod yr wybodaeth yn y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ynghlwm) yn gywir.
- Rydw i wedi rhoi gwybod i'r rhiant/gwarcheidwad am y canlynol:

<table>
<tr><td colspan="4">○ sut bydd y data personol yn cael ei ddefnyddio os bydd angen gadael mewn argyfwng.<br>○ sut mae modd iddyn nhw gael mynediad at eu hawliau gwybodaeth a gwybodaeth bellach trwy'r tudalennau Diogelu Data ar wefan yr ysgol.</td></tr>
<tr><td>Enw'r Pennaeth:</td><td></td><td>Llofnod y Pennaeth:</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td></td><td>Nodiadau ychwanegol:</td><td></td></tr>
</table>

# FFURFLEN C – POBL Â NAM AR Y CLYW

**Logo'r Ysgol a Hysbysiad Preifatrwydd**

**Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**

Bydd yr wybodaeth ar y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol arall) yn cael ei defnyddio gan yr ysgol wrth helpu dysgwr i adael mewn argyfwng er ei les ac yn unol â'n dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch 1974, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a deddfwriaeth gysylltiedig. I ddysgu am sut mae preifatrwydd yn cael ei amddiffyn a sut a pham rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth bersonol i ddarparu addysg a gwasanaethau, ewch i'r tudalennau Diogelu Data ar ein gwefan i ysgolion.

Dylai'r ffurflen PEEP gael ei defnyddio i ddatblygu cynllun unigol ar gyfer pob person anabl sydd wedi'i asesu ac mae angen cymorth arno i adael mewn argyfwng yn ôl y cynllun.

Dylai rhestr wirio'r PEEP gael ei defnyddio i gasglu'r wybodaeth berthnasol i'w chynnwys yn y cynllun.

Dylai'r PEEP gael ei adolygu ar ôl unrhyw newidiadau sylweddol, er enghraifft newid o ran cyflwr meddygol yr unigolyn, newid lleoliad, ac ati.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | | | |
| **Yr adeilad mae'r PEEP yma yn berthnasol iddo:** | | | |
| **Lloriau i'w defnyddio:** | | | |
| **Rhestri Gwirio – Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng** | | | |
| **YMWYBYDDIAETH O WEITHDREFNAU GADAEL MEWN ARGYFWNG** | | ✓ | **x** |
| 1 | Ydy gweithdrefnau argyfwng cyffredinol wedi cael eu hesbonio? | | |
| 2 | Allai'r dysgwr seinio rhybudd pe bai'n dod o hyd i dân (gweithredu system canu larwm)? | | |
| 3 | All y dysgwr agor drysau'r ddihangfa dân ar y llawr/lloriau bydd yn ei ddefnyddio/eu defnyddio? | | |
| 4 | Allai'r dysgwr ddefnyddio ffôn o'i gwmpas i ffonio'r gwasanaethau brys? | | |
| 5 | All y dysgwr glywed y larwm mewn amgylchiadau arferol? | | |
| 6 | Oes angen y gweithdrefnau gadael mewn argyfwng mewn fformat gwahanol i'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig safonol ar y dysgwr? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 | Oes angen y gweithdrefnau gadael mewn argyfwng ar y dysgwr trwy Iaith Arwyddion Prydain (‘BSL’)? | | |
| 8 | Oes gan ystafell waith y dysgwr olau fflachio a dyfais dirgrynu wedi'u cysylltu â'r larwm tân a fydd yn gweithio heb drydan? | | |
| 9 | Oes gan y toiledau i ddysgwyr olau fflachio wedi'i gysylltu â'r larwm tân? | | |
| 10 | Ydy'r dysgwr yn effro i unrhyw fesurau eraill mae modd eu cyflwyno yn yr adeilad dan sylw fyddai, o bosibl, yn helpu gweithdrefnau gadael mewn argyfwng? | | |

**Rhiant/gwarcheidwad**
Rydw i'n effro i'r ffaith bod y Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng yma wedi'i gwblhau i sicrhau bod y mesurau addas yn eu lle pe bai argyfwng ac rydw i'n deall hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r rhiant/gwarcheidwad: | | Llofnod y rhiant/gwarcheidwad: | |
| Dyddiad: | | Nodiadau ychwanegol: | |

**Pennaeth**

- Rydw i'n cadarnhau bod yr wybodaeth yn y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ynghlwm) yn gywir.
- Rydw i wedi rhoi gwybod i'r rhiant/gwarcheidwad am y canlynol:
  - sut bydd y data personol yn cael ei ddefnyddio mewn argyfwng.
  - sut mae modd iddyn nhw gael mynediad at eu hawliau gwybodaeth a gwybodaeth bellach trwy'r tudalennau Diogelu Data ar wefan yr ysgol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Pennaeth: | | Llofnod y Pennaeth: | |
| Dyddiad: | | Nodiadau ychwanegol: | |

# FFURFLEN D – CYFFREDINOL

**Logo'r Ysgol a Hysbysiad Preifatrwydd**

**Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**

Bydd yr wybodaeth ar y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol arall) yn cael ei defnyddio gan yr ysgol wrth helpu dysgwr i adael mewn argyfwng er ei les ac  yn unol â'n dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch 1974, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a deddfwriaeth gysylltiedig. I ddysgu am sut mae preifatrwydd yn cael ei amddiffyn a sut a pham rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth bersonol i ddarparu addysg a gwasanaethau, ewch i'r tudalennau Diogelu Data ar ein gwefan i ysgolion.

Dylai'r ffurflen PEEP gael ei defnyddio i ddatblygu cynllun unigol ar gyfer pob person anabl sydd wedi'i asesu ac mae angen cymorth arno i adael mewn argyfwng yn ôl y cynllun.

Dylai rhestr wirio'r PEEP gael ei defnyddio i gasglu'r wybodaeth berthnasol i'w chynnwys yn y cynllun.

Dylai'r PEEP gael ei adolygu ar ôl unrhyw newidiadau sylweddol, er enghraifft newid o ran cyflwr meddygol yr unigolyn, newid lleoliad, ac ati.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | | | |
| **Yr adeilad mae'r PEEP yma yn berthnasol iddo:** | | | |
| **Lloriau i'w defnyddio:** | | | |
| **Rhestri Gwirio – Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng** | | | |
| | | | |
| | **YMWYBYDDIAETH O WEITHDREFNAU GADAEL MEWN ARGYFWNG** | ✓ | x |
| 1 | Ydy gweithdrefnau argyfwng cyffredinol wedi cael eu hesbonio i'r dysgwr? | | |
| 2 | Allai'r dysgwr seinio rhybudd pe bai'n dod o hyd i dân (gweithredu system canu larwm)? | | |
| 3 | All y dysgwr agor drysau'r ddihangfa dân ar y llawr/lloriau bydd yn ei ddefnyddio/eu defnyddio? | | |
| 4 | Allai'r dysgwr ddefnyddio ffôn o'i gwmpas i ffonio'r gwasanaethau brys? | | |
| 5 | All y dysgwr glywed y larwm mewn amgylchiadau arferol? | | |
| 6 | Oes angen cymorth ar y dysgwr i adael eich gweithle mewn argyfwng? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 | Oes unigolyn penodol fydd yn helpu'r dysgwr i adael mewn argyfwng? | | |
| 8 | Sut mae'r trefniant gyda'ch cynorthwy-ydd yn cael ei gofnodi? | | |
| 9 | Mewn argyfwng, allai'r dysgwr gysylltu â'r person sy'n gyfrifol am weithdrefnau gadael adeilad eich gweithle a rhoi gwybod ble rydych chi? | | |
| 10 | Oes angen y gweithdrefnau gadael mewn argyfwng mewn fformat gwahanol i'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig safonol ar y dysgwr? | | |
| 11 | All y dysgwr symud yn gyflym os bydd argyfwng? | | |
| 12 | Ydy'r dysgwr yn effro i unrhyw fesurau eraill mae modd eu cyflwyno yn yr adeilad dan sylw fyddai, o bosibl, yn helpu gweithdrefnau gadael mewn argyfwng? | | |

**Rhiant/gwarcheidwad**

Rydw i'n effro i'r ffaith bod y Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng yma wedi'i gwblhau i sicrhau bod y mesurau addas yn eu lle pe bai argyfwng ac rydw i'n deall hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r rhiant/gwarcheidwad: | | Llofnod y rhiant/gwarcheidwad: | |
| Dyddiad: | | Nodiadau ychwanegol: | |

**Pennaeth**

- Rydw i'n cadarnhau bod yr wybodaeth yn y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ynghlwm) yn gywir.
- Rydw i wedi rhoi gwybod i'r rhiant/gwarcheidwad am y canlynol:
    - sut bydd y data personol yn cael ei ddefnyddio mewn argyfwng.
    - sut mae modd iddyn nhw gael mynediad at eu hawliau gwybodaeth a gwybodaeth bellach trwy'r tudalennau Diogelu Data ar wefan yr ysgol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Pennaeth: | | Llofnod y Pennaeth: | |
| Dyddiad: | | Nodiadau ychwanegol: | |

## Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP)

| |
|---|
| **Logo'r Ysgol a Hysbysiad Preifatrwydd**<br><br>**Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**<br><br>Bydd yr wybodaeth ar y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol arall) yn cael ei defnyddio gan yr ysgol wrth helpu dysgwr i adael mewn argyfwng er ei les ac yn unol â'n dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch 1974, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a deddfwriaeth gysylltiedig. I ddysgu am sut mae preifatrwydd yn cael ei amddiffyn a sut a pham rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth bersonol i ddarparu addysg a gwasanaethau, ewch i'r tudalennau Diogelu Data ar ein gwefan i ysgolion. |

Dylai'r ffurflen PEEP gael ei defnyddio i ddatblygu cynllun unigol ar gyfer pob person anabl sydd wedi'i asesu ac mae angen cymorth arno i adael mewn argyfwng yn ôl y cynllun.

Dylai rhestr wirio'r PEEP gael ei defnyddio i gasglu'r wybodaeth berthnasol i'w chynnwys yn y cynllun.

Dylai'r PEEP gael ei adolygu ar ôl unrhyw newidiadau sylweddol, er enghraifft newid o ran cyflwr meddygol yr unigolyn, newid lleoliad, ac ati.

| | |
|---|---|
| **Enw'r gwasanaeth/staff/dysgwr** | |
| **Lleoliad / rhif yr ystafell** | |
| **Llawr** | |
| **Adain (os yw'n berthnasol)** | |

| **Cymorth penodol** (Mae'r bobl ganlynol wedi'u henwi i roi cymorth mewn argyfwng). | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |

| **Sylwadau cyffredinol am berson anabl** |
|---|
| |

**Lleoliad a math o offer i'w defnyddio** e.e. cadair achub, ResQmat, pad sgïo, cadair olwyn, ac ati.

**Dull o gymorth** (e.e. gweithdrefnau symud, dulliau o gyfarwyddyd)

**Gweithdrefn Gadael mewn Argyfwng** (canllawiau bob yn gam o glywed y larwm cyntaf)

**Llwybr (au) Diogel**

**Cyfrifoldebau dysgwr ag anabledd**

<table>
<tr><td colspan="5">Rhiant/gwarcheidwad<br>Rydw i'n effro i'r ffaith bod y Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng yma wedi'i gwblhau i sicrhau bod y mesurau addas yn eu lle pe bai argyfwng ac rydw i'n deall hyn.</td></tr>
<tr><td>Enw'r rhiant/gwarcheidwad:</td><td colspan="2"></td><td>Llofnod y rhiant/gwarcheidwad:</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td></td><td>Nodiadau ychwanegol:</td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="5">Pennaeth<br><ul><li>Rydw i'n cadarnhau bod yr wybodaeth yn y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ynghlwm) yn gywir.</li><li>Rydw i wedi rhoi gwybod i'r rhiant/gwarcheidwad am y canlynol:<ul><li>sut bydd y data personol yn cael ei ddefnyddio mewn argyfwng.</li><li>sut mae modd iddyn nhw gael mynediad at eu hawliau gwybodaeth a gwybodaeth bellach trwy'r tudalennau Diogelu Data ar wefan yr ysgol.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>Enw'r Pennaeth:</td><td colspan="2"></td><td>Llofnod y Pennaeth:</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td></td><td>Nodiadau ychwanegol:</td><td colspan="2"></td></tr>
</table>